

Adroddiad gwerthuso ar ddulliau meithrin gallu i gefnogi cyflawni Saesneg fel iaith ychwanegol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2015



Adroddiad gwerthuso ar ddulliau meithrin gallu gefnogi cyflwyno Saesneg fel iaith ychwanegol yng Nghymru

Cynulleidfa Ymarferwyr ac arweinwyr ar draws y system addysg yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhellir ac nas cynhelir; awdurdodau lleol; consortia a llywodraeth ranbarthol a phartneriaid cenedlaethol sy'n ymwneud â darparu addysg i ddysgwyr nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Trosolwg Pwrpas y ddogfen hon yw rhannu dulliau meithrin gallu ac arfer da wrth ddarparu cymorth i ddysgwyr nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae hwn yn adolygiad annibynnol gan yr Uned Pobl a Gwaith, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

Camau i'w cymryd Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Dîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3901
e-bost: EnglishasAdditionalLanguage@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgagiliau

Dogfennau cysylltiedig *Cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg yng Nghymru* (2014) <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/minority-ethnic-achievement-in-education-in%20wales/?skip=1&lang=cy>

Cymraeg fel iaith Ychwanegol: Ymchwil i lefel yr angen a'r cymorth presennol a roddir i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig gydag anghenion cymorth yn y Gymraeg (2014) Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 46/2014

www.gov.wales/statistics-and-research/welsh-additional-language/?skip=1&lang=cy

Cynnwys

Crynodeb o acronymau	2
Crynodeb o'r adroddiad	3
Nod yr astudiaeth	3
Yr angen	3
Casgliadau	4
1.Cyflwyniad	6
Methodoleg	6
2. Saesneg fel iaith Ychwanegol yng Nghymru: Cyd-destun ac anghenion	7
Yr angen am gymorth	8
Caffael Saesneg	8
Mesur caffaeliad Saesneg	9
Cyrhaeddiad a SIY	10
Cymorth ar gyfer SIY yng Nghymru	11
3.Dulliau o feithrin gallu i ddiwallu anghenion SIY	15
Athrawon	17
Gwahaniaethu	20
Datblygiad proffesiynol	21
Cymorth yn y dosbarth ac adnoddau ychwanegol	21
Cymorth teulu	23
SIY a gwella ysgol	24
Targeddu gwaith	26
Data a'r 'rhith-bennaeth'	28
4.Dadansoddiad	30
Y dull fesul cam o gaffael iaith	31
Cyd-destun polisi	31
Dulliau ysgol gyfan	32
Gallu o ran addysgu	33
Defnyddio data	33
Cydweithio a dysgu	34
5.Casgliadau	35
Mae'r hyn sy'n dda i ddisgyblion SIY yn dda i'r disgyblion i gyd	35
Amddiffyn a datblygu canolbwynt SIY ar gyflawniad	35
Dadansoddi data a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion	36
Cysylltiadau â'r teulu a'r gymuned a chysylltiadau all-ysgol eraill	36
Datblygu'r hyn sy'n gweithio	37

Crynodeb o acronymau

ALI: Awdurdod Lleol

CAD: Cynorthwydd Addysgu Dwyieithog

CA: Cynorthwydd Addysgu

CYBLD: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

EMAS: Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

MEAG: Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

MELAP: Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig

NALDIC: Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Datblygu Iaith yn y Cwricwlwm

NEET: Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

OECD: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

SIY: Saesneg fel Iaith Ychwanegol

TGAU: Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Crynodeb o'r adroddiad

Nod yr astudiaeth

Nod yr astudiaeth hon oedd nodi dulliau o feithrin gallu i baratoi athrawon prif ffrwd i gefnogi cyflawniad lleiafrifoedd ethnig. Amcan yr astudiaeth oedd nodi a lledaenu strategaethau a dulliau llwyddiannus ar gyfer uwchsgilio athrawon dosbarth wrth ddarparu Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY).

Grant blynyddol a roddir i wasanaethau addysg awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru yw'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG). Defnyddir y grant yn bennaf i gynorthwyo Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) drwy'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS). Mae EMAS yn gweithredu ym mhob sir yng Nghymru, er bod rhai siroedd yn rhannu'r gwasanaeth ag awdurdodau lleol cyfagos. Mae'r gwasanaethau hyn yn amrywio o ran y cymorth a gynigir ganddynt a chanolbwynt y cymorth hwnnw. Mae pob EMAS yn gweithio i ddatblygu gallu ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt drwy ddarparu hyfforddiant, mentora ac adnoddau ychwanegol i staff ysgol. Mae pob EMAS hefyd yn darparu cynorthwyr addysgu dwyieithog, er bod amrywiaeth o ran y ffordd y cânt eu defnyddio.

Bu'r astudiaeth yn ymgynghori ag wyth EMAS a phum ysgol a gwahoddwyd sylwadau gan EMAS eraill. Mae'r adroddiad hwn yn dod â'r canlynol ynghyd: canfyddiadau'r ymgynghoriadau ag EMAS a'r ysgolion, adolygiad o ddogfennau polisi addysg, adroddiadau a gyflwynwyd gan EMAS mewn perthynas â'u cyllid MEAG ac adolygiad llenyddiaeth byr.

Yn ystod y prosiect ymchwil hwn, roedd trefniadau'n cael eu gwneud i ddod â'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig i ben fel grant penodol ar wahân. Ym mis Ebrill 2015, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno trefniadau newydd sy'n cynnwys y Grant Gwella Addysg, sy'n dwyn ynghyd 11 grant gwahanol, gan gynnwys y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig.

Yr angen

Mae angen cymorth Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) ar tua 7 y cant o ddisgyblion yn ysgolion Cymru. O'r rhain, mae 60 y cant ohonynt mewn tair sir, sef Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, ond mae dysgwyr SIY ym mhob sir yng Nghymru. Mae nifer y disgyblion yng Nghymru y mae angen cymorth SIY arnynt wedi aros yn weddol gyson, ond gwelwyd twf yng nghyfran y disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg o gwbl, neu ychydig iawn o Saesneg, o 24 y cant yn 2008/9 i 28 y cant yn 2012/13 (CYBLD). Yn yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y disgyblion SIY sy'n siarad Saesneg yn rhugl o 44 y cant i 27 y cant (ibid).

Mae Cymru yn defnyddio dull â phum cam i fesur caffaeliad iaith, gan fynd o A, sy'n gyfystyr â 'newydd i'r Saesneg', i E sy'n gyfystyr â 'rhugl'. Caiff llawer o adnoddau eu neilltuo i gynorthwyo disgyblion ar gam A. Cododd ysgolion ac EMAS bryder na fyddai anghenion y disgyblion hynny sy'n rhugl yn gymdeithasol yn cael eu diwallu o

bosibl, ac na fyddai rhuglder cymdeithasol yn ddigonol i gyflawni'n academaidd. Yn ogystal, efallai na fydd anghenion plant Prydeinig ail genhedlaeth neu drydedd genhedlaeth sy'n siarad Saesneg yn yr ysgol yn unig yn cael eu nodi oherwydd na chânt eu hystyried fel disgyblion sy'n newydd i'r iaith.

Dengys ymchwil y gall hyd yr amser sydd ei angen i gyflawni cymhwysedd academaidd mewn iaith amrywio o 5 i 10 mlynedd (Collier 1989¹). Gall anghenion disgyblion SIY fod yn gymhleth. Ymhlith y materion sy'n effeithio ar gaffael iaith mae oed y plentyn neu'r person ifanc ar gam A; cymhwysedd wrth siarad iaith y cartref; materion cynhenid wrth ddysgu iaith arall; ffactorau cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys lefelau addysg rhieni, profiadau addysg blaenorol a'r amgylchedd dysgu yn y cartref; a hanesion diwylliannol a mudo. Mae'r ffactorau hyn yn awgrymu y byddai model safonol o gymorth SIY yn llai effeithiol na dull sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth gynllunio a darparu cymorth SIY.

Casgliadau

Mae nifer yr ieithoedd gwahanol a siaredir gan ddisgyblion, ystod y profiadau addysg blaenorol a'r pwyntiau mynediad amrywiol i'r system addysg yng Nghymru yn golygu nad yw'n ymarferol i un gwasanaeth canolog ddarparu cymorth SIY, felly mae ffocws gwaith EMAS wedi dechrau canolbwyntio fwyfwy ar feithrin gallu ysgolion i ddiwallu anghenion SIY eu disgyblion.

Mae digon o arweiniad ac ymchwil ar sut i wneud hyn. Fodd bynnag, mae sut i ddatblygu'r dull hwn o ran SIY ledled Cymru yn fwy cymhleth. Mae cymorth EMAS ar gyfer dull mewn ysgolion yn tueddu i ganolbwyntio ar adran (mewn ysgol uwchradd), neu un athro neu fwy, a nodwyd yn yr ysgol. Bydd yr athro arbenigol yn gweithio ochr yn ochr â'r rhain, i'w helpu i ddatblygu offer a thechnegau, adnoddau a hyder, gan ganolbwyntio ar helpu'r ysgol yn hytrach na disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth a'r trafodaethau gydag EMAS yn darparu tystiolaeth gymysg o ran p'un a yw'r ffordd hon yn arwain at ddull ysgol gyfan. Nodwyd mai anaml y bydd ysgolion yn blaenoriaethu cymorth SIY, hyd yn oed pan fydd ganddynt nifer mawr o ddisgyblion sydd ag anghenion SIY. Efallai y byddant yn dibynnu ar gymorth allanol gan EMAS, neu efallai y byddant yn trin myfyriwr SIY fel un sydd ag angen addysgol arbennig, gan ddiystyru'r broblem. Mae hyn yn creu heriau penodol wrth ddatblygu dull ysgol gyfan.

Nododd yr astudiaeth mai'r gofynion allweddol ar gyfer datblygu dull ysgol gyfan i gynorthwyo SIY yw:

- mapio cymorth SIY o fewn polisïau ac arferion allweddol ysgolion mewn perthynas â gwella a chydaddoldeb, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, strategaethau datblygu proffesiynol a chynlluniau gwella ysgol
- gwella rôl ysgolion mewn perthynas â her a chymorth a phrosesau arolygu er mwyn monitro a hyrwyddo arfer da o ran SIY yn fwy effeithiol

¹ Collier, V. 1989. How Long? A synthesis of research on academic achievement in a second language. TESOL Quarterly. Cyfrol 33. Rhif 3. Tt: 509-531

- canolbwyntio ar gyflawniad a hyblygrwydd a chreadigrwydd wrth ddefnyddio modelau cwricwlaidd ac achredu
- defnyddio data ysgolion yn fwy effeithiol er mwyn monitro a gwerthuso datblygu sgiliau iaith. Roedd rôl y 'rhith-bennaeth' a fabwysiadwyd gan rai EMAS, sef cyfuniad o rôl cynghorydd herio'r ysgol o ran dadansoddi data, rôl y rhiant gweithredol o ran rheoli ansawdd, a rôl yr athro arbenigol o ran mentora a datblygu, yn cynnig model gwerthfawr i ategu defnydd ysgolion o ddata
- ymrwymiad yr uwch dîm rheoli sy'n cydnabod sut mae'r dull sydd ei angen i gynorthwyo dysgwyr SIY yn berthnasol i bob dysgwr, gan gynnwys gwahaniaethu effeithiol ar sail dadansoddi anghenion y dysgwr unigol
- darparu hyfforddiant a mentora i ddatblygu hyder athrawon wrth ddefnyddio gwahaniaethu yn effeithiol gyda dysgwyr SIY
- strategaethau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd ac ar gyfer cynnwys amrywiaeth diwylliannol yng nghwricwlwm ysgolion
- hyrwyddo a gwella cymhwysedd o ran ieithoedd y cartref.
- Yn ogystal, efallai y bydd angen darparu cymorth penodol i ysgolion sydd â nifer mawr o ddisgyblion ar gam A.

1. Cyflwyniad

Fel y nodwyd yn y fanyleb, nod yr astudiaeth oedd nodi dulliau o feithrin gallu i baratoi athrawon prif ffrwd i gefnogi cyflawniad lleiafrifoedd ethnig. Amcan yr astudiaeth yw nodi a lleadaenu strategaethau a dulliau llwyddiannus ar gyfer uwchsgilio athrawon dosbarth wrth ddarparu Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY).

Methodoleg

Cynhaliwyd y prosiect rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2014. Dechreuodd gydag adolygiad o gynlluniau Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yr awdurdodau lleol ar gyfer 2013/14 ac adroddiadau ar ddeilliannau diwedd y flwyddyn yn ymwneud â dyraniadau'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) gan Lywodraeth Cymru. Yna, cynhaliwyd adolygiad desg o ddogfennau, erthyglau a chyfnodolion allweddol.

Anfonwyd e-bost oddi wrth Gangen Dysgwyr Amrywiol Llywodraeth Cymru i bob Gwasanaeth Cyngori Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yn gofyn am eu cydweithrediad â'r prosiect ac adborth ar ddulliau o feithrin gallu.

Yna, nododd yr astudiaeth wyth EMAS a chysylltwyd â hwy. Dewiswyd y rhain i gwmpasu'r rhai sydd â nifer mawr a nifer cymharol fach o ddysgwyr SIY, gwasanaethau sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig a threfol, gyda lefelau uchel ac isel o amddifadedd. Ymwelwyd â phob EMAS a chynhaliwyd trafodaethau â hwy ynghylch eu dulliau o feithrin gallu, anghenion lleol a sut mae'r rhain yn newid. Yn ogystal, anfonwyd set fer o gwestiynau i bob EMAS arall a chawsant wahoddiad i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig neu siarad ag ymchwilydd.

Yn ogystal, cysylltwyd â phum ysgol ac ymgynghorwyd â hwy. Ymhlith y rhain oedd ysgol gynradd lle mae angen cymorth SIY ar dros 70 y cant o'r disgyblion; ysgol gynradd lle mae angen cymorth SIY ar 17 y cant o'r disgyblion; ysgol uwchradd lle mae 40 y cant o'r disgyblion yn dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig; ysgol uwchradd lle nad oes unrhyw ddisgyblion SIY eleni, a niferoedd bach (dau neu dri) yn y gorffennol; ac ysgol uwchradd lle mae angen cymorth SIY ar 15 y cant o'r disgyblion.

Mae'r adroddiad hwn yn dod â'r canlynol ynghyd: canfyddiadau'r ymgynghoriadau ag EMAS a'r ysgolion, adolygiadau o bolisiâu, adroddiadau a gyflwynwyd gan EMAS mewn perthynas â'u cyllid MEAG a'r adolygiad llenyddiaeth.

2. Saesneg fel iaith Ychwanegol yng Nghymru: Cyd-destun ac anghenion

Daw bron deg y cant o ddisgyblion ysgol yng Nghymru o grŵp lleiafrifoedd ethnig gyda disgyblion yn siarad dros 100 o ieithoedd ac 140 o dafodieithoedd². Er na fydd angen cymorth iaith ar bob un ohonynt, yn 2010 nododd adroddiad gan OECD ar addysg fudol³ fod plant a phobl ifanc o deuluoedd sydd wedi mewnfudo yn aml yn profi mynediad mwy cyfyngedig i addysg mewn gwledydd OECD, yn gadael ysgol yn gynharach ac yn cyflawni llai yn academaidd na'u cyfoedion brodorol. Adroddwyd hefyd bod effaith sylweddol ar ddeilliannau addysg pan na fydd yr iaith a siaredir yn y cartref yr un fath â'r iaith a siaredir yn yr ystafell dosbarth, hyd yn oed ar gyfer mudwyr ail genhedlaeth a aned yn y wlad lle maent yn mynd i'r ysgol.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae canran y disgyblion SIY yn ysgolion Cymru wedi aros rhwng 6 a 7 y cant, ond bu newid o ran proffil y disgyblion a lefel y cymorth SIY sydd ei angen (gweler tabl 1). Ac eithrio disgyblion SIY sy'n rhugl yn y Saesneg, mae nifer y disgyblion y mae angen cymorth arnynt wedi cynyddu bron traean mewn pum mlynedd. Yn ogystal, mae data gwasanaethau cyflawniad lleiafrifoedd ethnig (EMAS) yr awdurdodau lleol ar y defnydd o'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer 2013-2014 yn dangos bod cyfanswm o 28,902 o ddisgyblion SIY, gyda 2507 (9 y cant) heb fod angen cymorth, felly rhoddwyd cymorth i 26,395 o ddisgyblion SIY drwy'r MEAG. Mae dyraniad cyllid MEAG ar gyfer 2014-2015 yn seiliedig ar boblogaeth lleiafrifoedd ethnig gyffredinol o 40,184 i gynnwys SIY a grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill.

Tabl 1 : Data CYBLD⁴: disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru

Blwyddyn	Disgyblion sydd â SIY (Nifer)	Disgyblion SIY sy'n rhugl yn y Saesneg	Disgyblion SIY sy'n rhugl yn y Saesneg fel % o'r holl ddisgyblion SIY	Disgyblion y mae angen cymorth SIY arnynt	Disgyblion y mae angen cymorth SIY arnynt fel % o'r holl ddisgyblion SIY
2008-2009	30,701	13,402	44%	17,299	56%
2009-2010	25,843	8,139	31%	17,704	69%
2010-2011	28,038	8,409	30%	19,629	70%
2011-2012	30,756	9,083	30%	21,673	70%
2012-2013	31,132	8,250	27%	22,882	73%

² Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Dogfen wybodaeth 132/2014. Llywodraeth Cymru

³ OECD Reviews of Migrant Education - Closing the Gap for Immigrant Students: Policies, Practice and Performance. 2010. OECD

⁴ <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/PupilsAcquiringEnglishAsAdditionalLanguage-by-LocalAuthorityRegion-StageDevelopment>

Yr angen am gymorth

Dywedodd yr wyth EMAS yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon eu bod wedi gweld newidiadau diweddar o ran y dysgwyr SIY sy'n dod i'r sir. Nododd yr EMAS fod materion allweddol sy'n ymwneud â chynorthwyo SIY yn bwysig i'w deall mewn perthynas â meithrin gallu, gan gynnwys:

- yr amrywiaeth cynyddol o ieithoedd a siaredir yn y cartref
- proffil economaidd-gymdeithasol dysgwyr newydd a'u profiadau blaenorol o addysg
- oedran disgyblion SIY (hynny yw, po hynaf yw'r dysgwr pan fydd yn cael mynediad i'r system addysg, yr anoddaf yw cyflawni lefel iaith sy'n arwain at gyflawniad academaidd cydnabyddedig), yn enwedig o ystyried bod y cwricwlwm ynghlwm wrth oedran cronolegol yn hytrach na gallu neu lefel addysgol
- cael mynediad i'r system addysg ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn
- symud ysgol yn gyson ymhlith rhai grwpiau fel ffoaduriaid, teuluoedd myfyrwyr a gweithwyr tymhorol mudol, fel yr eglurodd un pennaeth – 'llynedd roedd nifer y disgyblion yn y dosbarth ar ddiwedd y flwyddyn yr un fath ag yr oedd ar ddechrau'r flwyddyn, ond roedd dros draean o'r plant yn blant gwahanol'
- diffyg arbenigedd gwasanaethau cymorth anghenion addysgol arbennig (AAA) wrth asesu anghenion mewn ffordd nad yw'n seiliedig ar iaith
- gor-ddibyniaeth ar unigolion sydd â diddordeb mewn ysgolion, yn hytrach na pholisïau ysgol gyfan mewn perthynas â SIY, ac yn gysylltiedig â hyn, rhoi blaenoriaeth isel i SIY ar lefel ysgol a sir.

Caffael Saesneg

Cafodd hyd yr amser sydd ei angen i gyflawni cymhwysedd academaidd mewn iaith ei asesu fel unrhyw beth rhwng 5 a 10 mlynedd (Collier 1989⁵). Ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar ba mor gyflym y caiff iaith ei chaffael mae cymhwysedd sy'n bodoli eisoes o ran iaith y cartref, gan gynnwys lefelau darllen ac addysg flaenorol; ffactorau economaidd-gymdeithasol; ac oedran wrth ddechrau caffael iaith newydd. Defnyddiodd astudiaeth yn Lambeth o ddisgyblion SIY⁶ ddata ystadegol hydredol a gasglwyd dros gyfnod o ugain mlynedd i olrhain faint o amser a gymerodd iddynt ddod yn rhugl yn y Saesneg. Canfu'r astudiaeth ei bod wedi cymryd rhwng 6 ac 8 mlynedd i ddisgyblion gaffael rhuglder academaidd yn y Saesneg. Defnyddiodd yr astudiaeth raddfa â phedwar pwynt, lle roedd cam 1 yn ddechreuwr a cham 4 yn rhugl, a nododd nad oedd y cynnydd wedi'i ledaenu'n gyfartal dros gamau. Roedd disgyblion yn tueddu i fod ar y cam dechreuwr am flwyddyn a hanner, ac aros ar yr

⁵ Collier, V. 1989. How Long? A synthesis of research on academic achievement in a second language. TESOL Quarterly. Cyfrol 33. Rhif 3. Tt: 509-531

⁶ Demie, F. (2010) English as an Additional Language: An empirical study of stages of English proficiency. Cyngor Lambeth. Ar gael ar <http://www.naldic.org.uk/research-and-information/research+summaries/ealproficiencylambeth>

ail gam, lle roeddent yn dod yn gyfarwydd â'r iaith, am dair blynedd; ac yna yn cymryd tair blynedd arall i ddod yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith.

Canfu astudiaeth Lambeth fod rhwystrau iaith yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar berfformiad disgyblion SIY a nodwyd cydberthynas gref rhwng rhuglder yn y Saesneg a chyflawniad academiaidd. Nododd yr EMAS yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y prosiect hwn fod problem yn codi pan fydd disgyblion yn caffael Saesneg gymdeithasol dda (Cam B) gan fod athrawon yn rhagdybio bod hyn yn golygu nad oes ganddynt angen o ran SIY. Fodd bynnag, nododd yr EMAS, pa na fydd Saesneg yn cael ei siarad yn y cartref, dim ond yn yr ystafell ddosbarth y gellir caffael iaith academiaidd a gall hyn arwain at roi disgyblion o dan anfantais. Gall hyn fod yn broblem ar gyfer disgyblion ail a thrydedd genhedlaeth o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, sy'n siarad Saesneg yn y dosbarth yn unig, a hefyd wrth symud o un lleoliad dysgu i un arall, os na chaiff cofnodion da eu trosglwyddo ac os na fydd y lleoliad newydd yn cynnal asesiadau iaith cadarn.

Mesur caffaeliad Saesneg

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn defnyddio graddfa â phum pwynt er mwyn cofnodi cam y disgyblion o ran eu caffaeliad iaith:

- A. Newydd i'r Saesneg
- B. Caffaeliad cynnar
- C. Datblygu cymhwysedd
- D. Cymwys
- E. Rhugl

Mae'r raddfa yn strwythur asesu 'annibynnol', nad yw'n gysylltiedig ag asesiadau statudol na'r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Ac eithrio disgyblion sy'n rhugl yn y Saesneg, ac felly nad oes ganddynt unrhyw anghenion penodol o ran caffael iaith (er, fel y nodir uchod, os na siaredir Saesneg yn y cartref gall fod angen parhaus i sicrhau bod hyd yn oed disgyblion Prydeinig ail a thrydedd genhedlaeth yn meddu ar sgiliau iaith ddigonol yn y Saesneg ar gyfer gwaith academiaidd), mae nifer y disgyblion yng Nghymru sydd ag angen o ran caffael iaith wedi codi bob blwyddyn ers 2008/09, pan nododd cofnodion CYBLD lefel iaith am y tro cyntaf (tabl 2).

Fel y dengys tabl 2 bu newid i lefel uwch o ran angen cymorth, gyda chynnydd o un flwyddyn i'r llall yn nifer a chanran gyffredinol y disgyblion SIY sydd heb unrhyw sgiliau iaith yn y Saesneg. Mae'r niferoedd ar lefel D wedi aros yn gymharol sefydlog ond mae'r ganran ar y lefel honno wedi gostwng o ganlyniad i gynnydd cyffredinol yn y niferoedd.

Tabl 2: Disgyblion mewn ysgolion meithrin, cynradd, canol ac uwchradd sy'n caffael Saesneg fel iaith ychwanegol yn ôl cam datblygu A-D (ac eithrio E) ac fel canran o'r holl ddysgwyr SIY (CYBLD)

	Cam A		Cam B		Cam C		Cam D	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
2008/09	4324	25%	4203	24%	4635	27%	4140	24%
2009/10	4495	25%	4522	26%	5075	29%	3612	20%
2010/11	5355	27%	4901	25%	5658	29%	3715	19%
2011/12	5894	27%	5232	24%	6561	30%	3986	18%
2012/13	6327	28%	5747	25%	6714	29%	4094	18%

Cyrhaeddiad a SIY

Mae tabl 3, a gafodd ei lunio o adroddiadau EMAS, yn dangos amrywiadau sylweddol rhwng siroedd mewn perthynas â chyrhaeddiad disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-2014. Ledled Cymru, mae disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cyflawni ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, ac ychydig yn is yng nghyfnod allweddol 4. Gall niferoedd bach mewn rhai siroedd fod yn gyfrifol am yr amrywiadau sylweddol, ond rhwng siroedd lle mae'r niferoedd yn uwch – Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe – mae amrywiaeth o lefelau cyrhaeddiad o hyd ar gyfer y cyfnodau allweddol gwahanol.

Tabl 3: Adroddodd EMAS 2013-2014 ganlyniadau ar gyfer disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a gynorthwyir gan MEAG o'u cymharu â sgoriau cyfartalog Dangosydd Pynciau Craidd (CSI) ar gyfer yr holl ddisgyblion yng Nghymru

Awdurdod Lleol	Sgoriau CSI o'u cymharu â sgoriau cyfartalog Cymru		
	CA2	CA3	CA4
Ynys Môn	+2	+10	+4
Blaenau Gwent	-6	-14	-15
Pen-y-bont ar Ogwr	+2	-4	+8
Caerffili	0	+11	+1
Caerdydd	-6	+3	-6
Caerfyrddin	-5	-16	+4
Ceredigion	-3	+14	+27
Conwy	+1	+5	<i>Ddim ar gael</i>
Dinbych	+10	+5	+3
Fflint	-7	-1	+1
Gwynedd	+3	+7	+11
Merthyr Tudful	-23	-15	
Mynwy	0	+8	-6
Castell-nedd Port Talbot	+10	-10	+18
Casnewydd	-6	-4	-3
Penfro	+2	+6	-6
Powys	+8	-1	-13
Rhondda Cynon Taf	+11	-7	+12
Abertawe	-1	+6	+15
Torfaen	-1	-4	+9
Bro Morgannwg	+5	+1	+1
Wrecsam	-3	-6	-3
Cymru	+1	+1	-3

Cymorth ar gyfer SIY yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant blynyddol i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ychwanegol i hyrwyddo cyflawniad lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yr awdurdodau lleol yn gwneud cais am Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) i gynorthwyo disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig hyd at 19 mlwydd oed. Dyrennir y grant ar sail data a anfonir gan yr awdurdod lleol ynghylch nifer y disgyblion a lefel y cymorth sydd ei angen. Mae pob awdurdod lleol yn cael cyllid. Fodd bynnag, mae 75 y cant o'r cyllid yn mynd i dri awdurdod lleol (gyda Chaerdydd yn cael 44 y cant), lle mae 60 y cant o'r disgyblion ag anghenion SIY yng Nghymru yn derbyn addysg (dyraniad ar gyfer 2014/15). Yn ôl datganiad gweinidogol Llywodraeth Cymru ar ddyraniadau MEAG yn 2014-2015 (Ionawr 2014), 'Plant o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli 8 % o'r boblogaeth ysgol yng Nghymru. Mae rhai o'r disgyblion hyn yn sefyll mewn angen cefnogaeth ac yn disgyn i ddau gategori : yn gyntaf , plant y mae

Saesneg , neu'r Gymraeg , yn iaith ychwanegol iddynt ; yn ail, plant o grwpiau ethnig lleiafrifol penodol sydd yn gyson o dan gyflawni ' .

Yn 2003 cynhaliodd Estyn arolwg o'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG): defnydd effeithiol o adnoddau. Nododd yr adroddiad gyfres o argymhellion:

Er mwyn hyrwyddo gwelliant pellach o ran ansawdd a safonau, dylai AALI ac ysgolion sicrhau bod:

- systemau ar waith i sicrhau bod y data a gesglir ar gyfer cyllid EMAG yn gywir ac yn gyson
- dyrannu staff EMAG i ysgolion yn seiliedig ar ffigurau cywir a fformiwla dryloyw sy'n gysylltiedig â chamau'r Cynulliad o ran caffael SIY.
- strategaethau ar waith i ymestyn hyfforddiant athrawon prif ffrwd o ran codi cyflawniad lleiafrifoedd ethnig
- staff EMAG ac athrawon prif ffrwd yn cynllunio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion lleiafrifoedd ethnig
- targedau clir, priodol ac unigol yn cael eu gosod ar gyfer cyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig
- staff EMAG yn cael eu monitro'n effeithiol
- gan ysgolion bolisiâu gweithredol ar gyfer SIY, cydraddoldeb hiliol ac addysg amlddiwylliannol
- darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion disgyblion Affricanaidd Caribiaidd

Nododd Estyn hefyd wendidau o ran darpariaeth ôl-16 mewn arolwg o'r enw 'Pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr rhwng 16 ac 19 oed sydd ag anghenion caffael Saesneg?'⁷ Roedd y canfyddiadau allweddol yn ymwneud â'r amrywiaeth o ran ansawdd y ddarpariaeth ar draws darparwyr a sectorau; gwendidau o ran asesu anghenion, sgiliau staff addysgu i ddiwallu anghenion cymorth iaith a'r data a gedwir ar ddysgwyr SIY; cynllunio gwael ar gyfer pontio ôl-16; a'r diffyg arweiniad strategol cenedlaethol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion caffael Saesneg.

Nododd adolygiad o'r MEAG (a gyhoeddwyd yn 2010) fod y grant yn cael ei ddefnyddio i gyllido darpariaeth arbenigol o ran cymorth ac addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn ogystal â darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon prif ffrwd (Llywodraeth Cymru 2010⁸). Canfu'r adolygiad o'r MEAG (ibid) fod nifer o awdurdodau lleol yn symud eu gwasanaethau i ffwrdd o fodel darparu uniongyrchol i fodel sy'n meithrin gallu ac adnoddau mewn ysgolion, o ganlyniad i'r nifer cynyddol o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd.

Yn ôl datganiad gan Lywodraeth Cymru ar Weinyddu'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) yn 2013-14 ac Opsiynau ar gyfer Cyfeirio Adnoddau'r Dyfodol (Ionawr 2014). 'Amcan MEAG yw gwella cyfleoedd addysgol i bob dysgwr o leiafrifoedd ethnig , yn enwedig y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ; i gynnig ddisgyblion sy'n geiswyr lloches y gefnogaeth arbennig sydd ei angen arnynt ac , yn fras , i wella safonau cyflawniad ar draws y bwrdd ' disgyblion o leiafrifoedd

⁷ Crynodebau o arolygon cylch gwaith Estyn 2008-9

⁸ Adolygiad o'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig. Llywodraeth Cymru 2010.

ethnig . Mae'r datganiad yn cydnabod bod cyfran helaeth o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i dalu costau athrawon arbenigol ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a'u cynorthwywyr addysgu, yn ogystal ag adnoddau addysgu a hyfforddiant.

Ym mis Medi 2013 cyhoeddodd Estyn arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr addysg ar gydraddoldeb, hawliau dynol a Saesneg fel iaith ychwanegol⁹. Mae'r arweiniad yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr holi darparwyr ynghylch yr ieithoedd cyntaf a siaredir gan ddisgyblion a myfyrwyr, a nifer y dysgwyr SIY. Pan fydd nifer y dysgwyr SIY yn 'nodwedd arwyddocaol', disgwylir i arolygwyr wneud sylwadau ar safonau, lles a phrofiadau dysgu yn eu hadroddiad (er nad oes gofyniad o'r fath pan fydd niferoedd bach neu ynysig o ddysgwyr SIY). Mae'r arweiniad yn nodi cyfres o gwestiynau i'w harchwilio gydag ysgolion y bwriedir iddynt fod yn sail i arfer da mewn perthynas â SIY (Estyn 2013:4-5):

- A oes polisi darparwr cyfan i gynorthwyo disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, ac os oes, a yw'n cael ei weithredu'n gyson?
- A yw'r amgylchedd yn groesawgar i ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol?
- A yw'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth am yr ieithoedd y mae'r disgyblion yn eu siarad?
- A yw'r cwricwlwm cyfan ar gael i ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol? A oes unrhyw athrawon prif ffrwd wedi cael hyfforddiant i'w helpu nhw i ddeall anghenion dysgu disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol?
- Pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol ac athrawon prif ffrwd?
- Sut mae gwersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd a, lle bo'n berthnasol, yn ystod unrhyw sesiynau tynnu allan o wersi, wedi'u trefnu i ddiwallu anghenion penodol y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol?
- A yw'r darparwr yn olrhain llwyddiant ei ddarpariaeth Saesneg fel iaith ychwanegol drwy arfarnu cyraeddiadau'r disgyblion, ac a yw'n defnyddio'r wybodaeth i nodi targedau ar gyfer gwella?
- A yw'r darparwr yn defnyddio'r iaith gyntaf i gynorthwyo dysgu?
- Sut mae'r darparwr yn diwallu anghenion disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol pan nad oes unrhyw addysgu cynorthwyol ar gael?

Mae cyfuniad o doriadau presennol a rhagamcanol i'r MEAG (£10.5miliwn yn 2013/14, i ychydig o dan £10miliwn yn 2014/15), ynghyd â chynnydd yn y galw am gymorth caffael iaith, wedi arwain EMAS ac ysgolion i adolygu'r ffordd y caiff cymorth SIY ei ddarparu, ac ystyried ffyrdd o feithrin gallu ac adnoddau mewn ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion SIY. Nod y gwaith hwn yw:

- helpu i sicrhau nad yw cymorth ar gyfer disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn lleihau (o ystyried toriadau i gyllid mewn termau real)
- lleihau pwysau ar EMAS

⁹ Estyn. 2013. Arweiniad atodol: cydraddoldeb, hawliau dynol a Saesneg fel iaith ychwanegol.

- datblygu dull ysgol gyfan mewn perthynas â chyflawniad lleiafrifoedd ethnig
- llywio datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff addysgu prif ffrwd

Yn Lloegr, daeth y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig i ben yn 2011 ac aeth yr arian i Grant Ysgolion Penodedig, a oedd yn golygu na chafodd yr arian ei neilltuo'n benodol i roi cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion SIYD¹⁰. Flwyddyn yn ddiweddarach nododd adroddiad gan NASUWT¹¹ ostyngiad sylweddol o ran lefelau cymorth gan wasanaethau cymorth Saesneg fel iaith ychwanegol ar lefel awdurdodau lleol ac mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae lefelau cyflawniad dysgwyr SIY yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 4 wedi parhau i wella er gwaethaf y newidiadau hyn¹².

Daw'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig i ben yng Nghymru ym mis Mawrth 2015, ac o fis Ebrill 2015 ymlaen caiff ei ddisodli gan y Grant Gwella Addysg sy'n dwyn 11 cynllun grant ynghyd o dan un rhaglen gyda chyfanswm cyllid o £141m. Gobaith Llywodraeth Cymru yw y bydd y grant newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol a chonsortia addysg i gyfeirio adnoddau lle mae eu hangen fwyaf er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Er nad yw symiau penodol wedi'u neilltuo o dan y grant newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo consortia i sicrhau bod anghenion dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu diwallu yn 2015-16 drwy fesuriadau deilliannau y cytunir arnynt a thrwy gyflwyno Fframwaith Deilliannau o fis Ebrill 2016 ymlaen.

¹⁰ Mae ysgolion yn Lloegr yn parhau i dderbyn cyllid ar gyfer SIY ac yn 2014-2015 y lefelau isaf yw £466 ar gyfer ysgolion cynradd ac £1,130 ar gyfer ysgolion uwchradd¹⁰ (DFE (Gorffennaf 2014): *Fairer schools funding: arrangements for 2015 to 2016 - Dfe Fairer Funding*)

¹¹ Ethnic Minority Achievement. 2012. NASUWT

¹² <http://www.naldic.org.uk/research-and-information/eal-statistics>

3. Dulliau o feithrin gallu i ddiwallu anghenion SIY

Ers yr 1980au mae wedi bod yn bolisi yn y DU y dylai disgyblion sydd ag anghenion SIY fod yn rhan o'r system ysgol brif ffrwd (Leung 2003¹³), a chaiff hwn ei ystyried fel mater o ran hawliau a chydaddoldeb yn ogystal ag un sy'n ymwneud ag iaith ac addysgu. Fodd bynnag, dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg (neu'r Saesneg) y caiff cyrhaeddiad academaidd ei gyflawni a'i fesur, mae'r asesiadau dysgu statudol yr un fath i ddisgyblion SIY ag y maent i'w cyfoedion brodorol ac nid oes estyniad ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol i'r cwricwlwm cenedlaethol (ibid). Mae hynny'n golygu er bod parch tuag at sgiliau dwyieithog neu deirieithog, nid ydynt yn cael eu cofnodi fel cyflawniad addysgol (ac eithrio ieithoedd cartref TGAU lle bo'n briodol). Felly, mae angen i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Saesneg er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm a chael budd ohono.

Mae'r EMAS a'r ysgolion yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr adroddiad hwn wedi disgrifio amrywiaeth o ddulliau o fynd i'r afael ag anghenion SIY a oedd yn amrywio o ddisgyblion byth yn cael eu tynnu allan o'r dosbarth o gwbl; sesiynau wedi'u targedu a sesiynau lle byddai plant yn gadael y dosbarth am amser cyfyngedig i ganolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu; i ddisgyblion SIY yn cael eu lleoli yn gyntaf mewn uned cynhwysiant neu arbenigol ar gyfer iaith, gan fynychu cwricwlwm prif ffrwd am gyfnod hyd nes i'w sgiliau iaith ddatblygu.

Dengys ymchwil y bydd lefel anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran cymorth caffael iaith yn cael ei dylanwadu nid yn unig gan eu gwybodaeth am Saesneg, ond gan eu cefndir addysgol, economaidd-gymdeithasol, diwylliannol a sefyllfaol hefyd. Er enghraifft, mae gan ddisgyblion sydd â sgiliau darllen ac ysgrifennu lefel uchel yn yr iaith a siaredir gartref fantais (Cross, R. 2011¹⁴), yn yr un modd â'r rhai y mae gan eu rhieni sgiliau a/neu gymwysterau. Dadleuir dros fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion, sy'n asesu anghenion unigol ac yn gweithio gyda hwy (Flynn 2007¹⁵; Naidoo, L. 2012¹⁶).

Caiff y broses o ymgysylltu â diwylliant brodorol y disgybl er mwyn hwyluso dysgu a phontio yn bwysig iawn ym maes SIY (Cross 2011). Roedd y rhan fwyaf o EMAS yr ymgynghorwyd â hwy yn yr astudiaeth hon yn ymwneud â hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn ysgolion ac roeddent yn glir bod cynnwys profiadau a diwyllianau cartref y disgyblion mewn dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn werthfawr ar gyfer dysgwyr SIY a'u cyfoedion brodorol. Siaradodd un ysgol uwchradd am y ffaith eu bod wedi dechrau defnyddio chwedlau o wledydd cartref y disgyblion mewn gwersi ac mae adrannau eraill wedi datblygu gwaith o amgylch bwyd a choginio ac arferion crefyddol. Gall defnyddio gwaith grŵp a storïau digidol i hyrwyddo caffael

¹³ Leung 2003. Integrating school-aged ESL learners into the mainstream curriculum. Kings College London

¹⁴ Cross, R. (2011) *Monolingual curriculum frameworks, multilingual literacy development: ESL teachers beliefs*. Australian Journal of Language and Literacy 34(2), tt. 166-180.

¹⁵ Flynn, N. (2007) *Good practice for pupils learning English as an additional language: lessons from effective literacy teachers in inner-city primary schools*. Journal of Early Childhood Literacy 7(2), tt. 177-198.

¹⁶ Naidoo, L. (2012) *Refugee action support: crossing borders in preparing pre-service teachers for literacy teaching in secondary schools in Greater Western Australia*. International Pedagogies and Learning 7(3), tt. 266-274.

iaith, hyd yn oed pan fydd profiadau'r dysgwyr SIY yn wahanol iawn, eu galluogi i archwilio elfennau cyffredin, gan gynnwys rhwystrau iaith a stigmatiddio cymdeithasol, fel ffordd o fireinio sgiliau iaith (ibid; Cooke 2001¹⁷).

Mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn bwysig i athrawon gydnabod profiadau posibl ffoaduriaid ond hefyd bod rhaid i athrawon osgoi gadael i gydymdeimlad tuag at hanes disgyblion leihau eu disgwyliadau o ran cyflawniad (Emert 2014¹⁸; Maher 2014¹⁹). Mynegodd rhai EMAS ac ysgolion yr ymgynghorwyd ag hwy ar gyfer yr astudiaeth bryder y dylai strwythurau asesu gynnwys rhywfaint o gydnabyddiaeth o effaith trauma a thlodi ar gyfraddau dysgu. Er enghraifft, dywedodd un pennaeth yr ymgynghorwyd ag ef ei fod yn teimlo'n falch o'r cynnydd o ran caffael iaith a wnaeth un plentyn sy'n rhannu ystafell wely gydag wyth arall, gan arwain at flinder ac effeithiau eraill yn ymwneud â thlodi, ac roedd yn teimlo'n rhwystredig bod yr ysgol wedi cael ei beirniadu am fod y cynnydd ychydig islaw'r lefel ddisgwyliedig o ran safonau.

Nodir bod y broses o feithrin cymhwysedd yn iaith y cartref yn cael effaith fuddiol ar addysg gyffredinol ac ar sgiliau Saesneg y disgybl ac mae'r rhan fwyaf o EMAS wedi adrodd eu bod yn cefnogi TGAU yn iaith y cartref. Mae Ofsted²⁰ yn darparu arweiniad o arfer da yn Lloegr sy'n ystyried sut y gellir ymgorffori ieithoedd y cartref o fewn y cwricwlwm ac arferion yr ystafell ddosbarth. Ymhlith eu hawgrymiadau mae'r canlynol:

- cynnig cymwysterau yn iaith y cartref yn y cwricwlwm safonol fel rhan o'r cynnig iaith fodern
- cwblhau asesiadau yn yr ieithoedd a gynigir yn yr ysgol pan maent yn cofrestru
- teithiau ac ymweliadau i alluogi disgyblion i ymarfer yr iaith a siaredir gartref
- rhaglen sefydlu bersonol, wedi'i chynnal yn ddwyieithog
- darparu cyfaill, sy'n siarad yr un iaith yn ddelfrydol
- llyfrau a chymhorthion gweledol mewn dwy iaith
- cynnwys rhieni yn y gymuned, a darparu dosbarthiadau Saesneg
- codi dyheadau staff ar gyfer disgyblion o'r fath
- adolygu cynnydd yn barhaus drwy olrhain
- cyflogi athrawon arbenigol ar gyfer SIY
- hyfforddi athrawon dosbarth i ddiwallu anghenion disgyblion SIY a chyflwyno arfer da

¹⁷ Cooke, S. (2001) Collaborative learning and learning to learn. *Improving Schools* 4(2), tt. 36-42.

¹⁸ Emert, T. (2014) *Interactive digital storytelling with refugee children*. *Language Arts* 91(6), tt. 401-415.

¹⁹ Maher, M. (2014) *Asylum seeker and refugee children belonging, being and becoming: the early childhood educator's role*. *Australasian Journal of Early Childhood* 39(1), tt. 22-29.

²⁰ <http://www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-raising-achievement-of-students-for-whom-english-additional-language-belle-vu>, <http://www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-provision-for-new-arrivals-learning-english-additional-language>, a <http://www.ofsted.gov.uk/resources/good-practice-resource-raising-achievement-of-students-learning-english-additional-language>

- cynnig cwricwlwm amgen (er enghraifft cwrs Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) Ryngwladol ar gyfer cyflawnwyr uchel, neu gymwysterau BTEC ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth)
- cynnal dull hyblyg

Athrawon

Yn ei harolwg ar y defnydd effeithiol o adnoddau EMAG (2003), nododd Estyn:

- ychydig o athrawon prif ffrwd sydd â'r hyfforddiant neu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion disgyblion SIY yn effeithiol
- nid oes digon o gydweithredu rhwng athrawon prif ffrwd sy'n addysgu disgyblion SIY ac athrawon cymorth EMAG wrth gynllunio profiadau disgyblion.

Er bod yr adroddiad hwn wedi ei baratoi dros ddeng mlynedd yn ôl, codwyd pryderon tebyg yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon, gan awgrymu fod y materion a godwyd yn berthnasol o hyd.

Mae'r llawlyfr canllawiau ar ddod yn athro yng Nghymru (Cylchlythyr rhif 017/2009) yn nodi bod SIY yn dod o dan haen Monitro ac Asesu Safonau Athrawon yng Nghymru (S3.2.5 Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol). Mae'r Canllawiau yn nodi y gall pob athro ddisgwyl addysgu dosbarthiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg lle na fydd y rhain yn iaith gyntaf i rai dysgwyr. Er mwyn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cyrraedd y safon sydd o fewn eu gallu, mae'n rhaid i athrawon 'allu canfod eu lefelau cyrhaeddiad a rhoi cymorth a fydd yn gwella sgiliau iaith y dysgwyr ac yn eu helpu i ddysgu'. Mae'r Canllawiau hefyd yn nodi y dylai athrawon allu 'dadansoddi gofynion iaith a gweithgareddau dysgu er mwyn rhoi sialens wybyddol yn ogystal â chefnogaeth ieithyddol'.

Mae'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n cynorthwyo athrawon i'w helpu i ddeall anghenion plant sy'n ffoaduriaid neu sydd wedi mudo yn bwysig (MacNevin, J. 2012²¹). Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar athrawon uwchradd, yn benodol, wrth ddeall dulliau sylfaenol o ddarllen, ac mae'r ymchwil yn glir bod angen i athrawon ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwyllianau eu disgyblion. Ystyrir arfer myfyriol (Garcia 2009²²) yn offeryn allweddol i ddatblygu ymateb athrawon i anghenion cymorth disgyblion o ran iaith a diwylliant. Yn ogystal, ystyrir bod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth o sut i asesu safonau ac anghenion, ac i gydnabod y gwahaniaeth rhwng anawsterau ieithyddol ac anghenion addysgol arbennig yn bwysig mewn perthynas â datblygiad athrawon (Hasson 2012²³).

²¹ MacNevin, J. (2012) *Learning the way: teaching and learning with and for youth from refugee backgrounds of Prince Edward Island*. Canadian Journal of Education 35(3), tt. 48-63.

²² Garcia, E. (2009) *Developing responsive teachers: a challenge for a democratic reality*. Journal of Teacher Education 61(1-2), tt. 132-142.

²³ Hasson, N. (2012) *Discriminating disorder from difference using dynamic assessment with bilingual children*. Child Language Teaching and Therapy 29(1), tt. 57-75.

Mae pob EMAS yng Nghymru yn darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon a chymorth addysgu neu ddysgu. Mae gwasanaethau gwahanol yn darparu modelau gwahanol, o sesiynau mynediad agored tymhorol i hyfforddiant manwl i'r ysgol gyfan. Ystyrir bod darparu hyfforddiant cyflwyniadol i godi ymwybyddiaeth yn bwysig i helpu staff i gydnabod y bydd disgyblion sydd ag anghenion SIY yn ei chael hi'n anodd o bosibl, a hefyd bod ffyrdd y gellir eu helpu. Fodd bynnag, teimlai'r holl wasanaethau fod yn rhaid i hyfforddiant paratoadol gael ei ategu gan gymorth ymatebol, a/neu fwy o hyfforddiant manwl, pan fo angen. Roedd yn gyffredin ar draws pob gwasanaeth i ymateb i ysgolion ac athrawon pan fyddai plentyn neu berson ifanc sydd â SIY yn dod i'w dosbarth oherwydd byddai angen canllawiau pellach arnynt ar beth i'w wneud. Mewn rhai achosion gallai hyn fod yn fater o sicrwydd yn unig, ond mewn achosion eraill gellid mabwysiadu dull hyfforddi 'wedi'i bersonoli'.

Mae'r EMAS sydd â'r niferoedd uchaf o ddysgwyr SIY wedi datblygu dull hyfforddi 'ysgol gyfan' fesul cam, lle maent yn ceisio canolbwyntio gwaith ar un ysgol dros gyfnod, gydag athrawon arbenigol SIY yn treulio amser gyda staff ysgol i ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion, dulliau o ymdrin â gwahaniaethu a chymorth, a defnyddio adnoddau wedi'u targedu. Gellid canolbwyntio'r dull hwn ar ysgolion sydd â chyfran uchel o ddysgwyr SIY a gellid ei gymysgu â dull cymorth llai dwys i'r rhai sydd â nifer bach o ddysgwyr SIY. Er enghraifft, yng Nghaerdydd roedd prosiect tair blynedd yn bwriadu sicrhau bod pob ysgol wedi cael hyfforddiant er mwyn codi cyflawniad ymhlith disgyblion sydd ag angen SIY. Roedd yr amser a dreuliodd mewn ysgol yn amrywio o flwyddyn i dymor yn dibynnu ar faint y boblogaeth SIY. Rhoddwyd £1000 i bob ysgol ar gyfer adnoddau hefyd. Mae'r dysgu o'r gwaith hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymrwymiad yr uwch dîm rheoli i'r gwaith, a'r angen i'r mater gael ei ystyried fel blaenoriaeth ysgol gyfan. Y perygl posibl yw bod llawer o adnoddau yn cael eu buddsoddi i ddatblygu sgiliau athro a/neu adran ond pan fydd yr athro hwnnw yn symud ymlaen, caiff y cynnydd ei golli.

Yn ogystal, gweithiodd y Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MELAP) mewn naw awdurdod lleol gan ganolbwyntio'n bennaf ar SIY. Darparodd y prosiect hyfforddiant i 710 o athrawon a 46 o staff EMAS. Cafodd MELAP ei gyllido drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop am dair blynedd (Medi 2010-Gorffennaf 2013) i weithio gyda disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig 11-19 oed yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â bylchau o ran cyflawniad, mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu (gan gynnwys SIY) ac atal pobl ifanc rhag dod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Roedd dull hyfforddi MELAP yn amrywio o 'sesiynau mewn diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, i hyfforddiant grwpiau bach dros ddiwrnod, a chwrs hyfforddi 10 i 12 wythnos, yn Abertawe, ar gyfer athrawon pwnc (hanes, mathemateg, a gwyddoniaeth) a oedd yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol, arsylwi a mentora. Roedd nifer o ALLau wedi bwriadu gwneud mwy o hyfforddiant manwl ond cawsant anawsterau o ran cael ysgolion i ymgysylltu â'r cyfryw raglenni'. Dywedodd llawer o'r rhai a gafodd gyfnodau byrrach o hyfforddiant nad oedd yn ddefnyddiol iawn am nad

oedd yn darparu digon o enghreifftiau ymarferol i'w defnyddio ar ôl hynny neu cafodd ei gyflwyno ar ddiwrnod HMS prysur (ICF: 2014:16-17²⁴).

Mae EMAS wedi gweithio gydag ysgolion i nodi eu hanghenion hyfforddi gan ddefnyddio strwythur arolygu Estyn. Yn Abertawe, gofynnir i athrawon hunanasesu eu sgiliau a'u hyder ar ddechrau'r cyfnod hyfforddi a chaiff hyn ei wneud eto ar y diwedd i nodi gwelliannau a lle mae angen gwaith pellach.

Yn ôl EMAS y prif heriau a nodwyd o ran hyfforddiant fel dull o feithrin gallu oedd:

Blaenoriaethu; mae mynychu hyfforddiant y tu allan i ysgol yn wirfoddol yn golygu mai dim ond ysgolion a/neu staff sydd ag ymwybyddiaeth sylfaenol o anghenion cymorth SIY fydd yn ceisio hyfforddiant.

Nodwyd ei bod yn hanfodol cynnwys SIY mewn cynllun datblygu ysgol er mwyn i sesiynau HMS gael eu defnyddio, ac, hyd yn oed pan fydd niferoedd uchel o ddisgyblion sydd ag angen SIY mewn ysgol, efallai na fydd darparu cymorth ar eu cyfer yn flaenoriaeth. Erys y sefyllfa yr un fath, sef bod EMAS yn aml yn gorfod annog ysgolion i ymgymryd â hyfforddiant, yn hytrach na diwallu angen y mae ysgolion yn ei flaenoriaethu:

Hyfforddiant fel proses, nid digwyddiad: caiff rhaglenni dwys sy'n canolbwyntio ar hyfforddi athrawon mewn ysgol eu niweidio pan fydd aelodau allweddol o staff yn symud i swydd arall.

Er, yn ddamcaniaethol, y dylai athrawon o'r fath fynd â'u sgiliau gyda hwy i'w hysgol newydd, felly mae meithrin gallu yn digwydd ar draws y gweithlu addysg cyfan, yn ymarferol mae staff EMAS wedi darganfod nad yw staff sydd wedi derbyn hyfforddiant, wrth symud i swydd newydd, yn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd ym maes SIY o'u hen swydd, a gall colli staff sydd wedi'u hyfforddi arwain at gam yn ôl difrifol ar gyfer datblygiad SIY yn yr ysgol.

Hyd yn oed ymhlith gweithlu cymharol sefydlog, bydd athrawon newydd yn dechrau bob blwyddyn. Er enghraifft, mae un EMAS yn cynnal cymuned dysgu cymunedol rhithwir ar gyfer yr holl athrawon newydd gymhwyso yn nhymor yr Hydref.

Ystyriwyd bod gweithio ochr yn ochr ag athro mewn dosbarth a darparu anogaeth, syniadau ac adnoddau wedi'u teilwra yn fwy effeithiol o lawer na darparu pecynnau dysgu neu adnoddau eraill, heb roi canllawiau ar sut i'w defnyddio. Er bod y dull hwn yn ddwys, ac felly yn ddrud o bosibl, ystyriwyd bod y dull hwn yn darparu'r buddiannau gorau. Fodd bynnag, archwiliodd astudiaeth o 2010 arferion athrawon pwnc wrth weithio mewn partneriaeth ag athrawon arbenigol SIY pan fo dysgwyr SIY yn astudio'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn dysgu Saesneg ar yr un pryd (Creese, 2010²⁵). Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod y bartneriaeth rhwng athrawon pwnc ac athrawon arbenigol SIY yn arwain at welliant o ran mynediad i gwricwlwm y pwnc,

²⁴ ICF GHK ar y cyd ag Arad Consulting. 2014. Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig. Llywodraeth Cymru

²⁵ Creese A. (2010), Content-Focused Classrooms and Learning English: How Teachers Collaborate. Theory into Practice: 99-105. Routledge

ond nid yw'n creu cyfleoedd gwell i'r gwersi ddarparu dysgu Saesneg yn fwy cyffredinol.

Dulliau ysgol gyfan: Teimlai llawer o EMAS mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu gallu oedd drwy weithio mewn ffordd ymarferol iawn gydag athrawon unigol a/neu adrannau mewn ysgolion uwchradd drwy fentora ac arddangos.

Roedd pob EMAS yn glir bod cymorth oddi wrth yr uwch dîm rheoli, yn bendol, yn hanfodol wrth ddatblygu gallu parhaol ar gyfer cymorth SIY mewn ysgolion ac nid oedd hyd yn oed y rhaglenni dwys mewn ysgolion yn llwyddiannus bob tro wrth ddatblygu hyn. Canfu arolwg Estyn o'r defnydd effeithiol o adnoddau SIY (2003²⁶) fod gweledigaeth glir a rheoli strategol da mewn ysgolion pan fydd arweinwyr a rheolwyr ysgol yn cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o reoli a darparu gwasanaethau EMAG. Nododd yr arolwg hefyd fod gan lawer o benaethiaid lefel uchel o ymrwymiad i ddiwallu anghenion disgyblion lleiafrifoedd ethnig a'u bod yn gwerthfawrogi gwasanaethau EMAG a gaiff eu gweinyddu a'u rheoli'n ganolog. Fodd bynnag, roedd y rhai hynny yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr adroddiad hwn yn amheus ynghylch hyn. Roedd pryder bod rhai ysgolion yn hoffi'r gwasanaethau a gynigiwyd gan EMAS oherwydd roedd yn eu galluogi i beidio â gorfod mynd i'r afael â'r anghenion eu hunain, ac yn y gorffennol eu bod wedi dibynnu gormod ar gymorth allanol i fynd i'r afael â SIY.

Gwahaniaethu

Y broses allweddol ar gyfer cynnwys dysgwyr SIY mewn darpariaeth prif ffrwd yw gwahaniaethu. Disgrifir gwahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth gan Hall (2002²⁷) fel:

'a process to approach teaching and learning for students of differing abilities in the same class. The intent is to maximize each student's growth and individual success by meeting each student where he or she is . . . rather than expecting students to modify themselves for the curriculum.'

Cydnabyddir gwahaniaethu fel offeryn allweddol i ddiwallu anghenion SIY yn yr ystafell ddosbarth ond gall fod yn anodd datblygu hyn, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Fel y nododd Tomlinson (1999²⁸):

"For all its promise . . . effective differentiation is complex to use and thus difficult to promote in schools. Moving toward differentiation is a long-term change process" (t. 6).

²⁶ Adroddiad o'r arolwg: Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG): defnydd effeithiol o adnoddau. 2003. Estyn

²⁷ Hall, T. (2002). *Differentiated instruction* [Ar-lein]. Wakefield, MA: CAST. Available: www.cast.org/publications/ncac/ncac_diffinstruc.html

²⁸ Tomlinson, C. A. (1999). Leadership for differentiated classrooms. *The School Administrator*, 56(9), 6–11.

Dywedwyd wrth y prosiect nad yw athrawon ysgolion uwchradd yn brofiadol iawn yn aml mewn perthynas ag addysgu a meithrin llythrennedd, a dangosodd adolygiad Llywodraeth Cymru o sgiliau'r gweithlu mewn perthynas ag AAA (sydd ar y gweill) fod hyder athrawon ysgol uwchradd wrth weithio gyda disgyblion sydd â lefelau llythrennedd islaw lefel 1 yn isel. Roedd EMAS a staff ysgol yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon yn glir bod sgiliau a hyder o ran cymorth SIY yn datblygu drwy ymarfer, ac felly ar ei isaf pan fydd nifer bach iawn o ddisgyblion y mae angen cymorth SIY arnynt, er mai dyma'r lleoliadau yn aml lle y teimlir y byddai gwahaniaethu yn diwallu anghenion yn fwyaf digonol.

Dywedodd ymatebwyr o EMAS ac ysgolion yn yr astudiaeth hon nad yw athrawon yn aml yn gwybod sut i wahaniaethu, a bod llawer o waith staff EMAS yn ymwneud â datblygu technegau ac adnoddau gyda staff i ddangos iddynt sut i wneud hyn. Fodd bynnag, teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad yw gwahaniaethu yn ddigon yn ystod camau cynharaf caffael iaith, fel y dywedodd un 'pan fydd rhaid i blant ddysgu'r hanfodion fel dweud yr wyddor, mae'n rhaid i ni roi cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darllen ac ysgrifennu, a rhaid cael y cydbwysedd cywir er mwyn llwyddo'.

Datblygiad proffesiynol

Ystyriwyd bod mentora, a chymorth unigol, yn offeryn allweddol i ddatblygu hyder athrawon i ddefnyddio dulliau o wahaniaethu, a hefyd wrth ddangos pa fath o ddulliau y gellid eu defnyddio. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o sut mae cymorth gan EMAS ar wahaniaethu yn gweithio, er na nodwyd llawer o enghreifftiau o gymunedau dysgu proffesiynol na strwythurau mentora rhwng cydweithwyr.

Tueddodd EMAS i siarad am yr angen i ddefnyddio dull cymodol a chefnogol o ran hyfforddiant mewn ysgolion ac mae rhai yn ei chael yn anodd ymgymryd â rôl herio. Mae pawb yr ymgynghorwyd â hwy wedi ceisio symud o gael eu hystyried fel darparwyr cymorth allanol ac ychwanegol drwy gynorthwyyr addysgu neu ddysgu, i ddull mwy agored o gynnig arbenigedd o ran strategaethau SIY ac ymchwil i feithrin gallu ac adnoddau, a theimlai'r rhan fwyaf ohonynt fod hyn wedi bod yn fuddiol i statws y gwaith. Fodd bynnag, roedd yn glir bod blaenoriaethu SIY o fewn ysgol yn ymwneud yn fwy â diddordeb ac ymrwymiad staff o hyd na disgwyliadau ysgol, sir neu bolisi addysg.

Cymorth yn y dosbarth ac adnoddau ychwanegol

Mae pob gwasanaeth EMAS yn darparu cynorthwyyr addysgu neu ddysgu dwyieithog (CAD) ond cânt eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, o staff sy'n seiliedig mewn ysgol yn barhaus i weithio gydag unigolion a grwpiau, i ardaloedd eraill lle caiff CAD eu defnyddio ar gyfer astudio ieithoedd cartref ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn unig. Mae safbwyntiau gwahanol ynghylch eu gwerth, ond y cytundeb cyffredin yw ei bod yn dod yn llai ymarferol i ddarparu CAD i bob disgybl sy'n newydd i Saesneg oherwydd nifer cynyddol y dysgwyr sydd ag anghenion SIY, amrywiaeth yr ieithoedd a gaiff eu siarad ac ystod yr ysgolion y byddai angen darparu ar eu cyfer.

Roedd y rhan fwyaf o EMAS yn glir bod CAD yn hanfodol, er bod eu safbwyntiau yn amrywio o ran y rôl y dylid ei chwarae ganddynt, ac roedd ysgolion yn werthfawrogol iawn o'u cyfraniad. Fodd bynnag, roedd pryder gan rai ysgolion ynghylch y ffordd y caiff CAD ac athrawon arbenigol eu defnyddio mewn ysgolion. Gan eu bod yn cael eu rheoli gan yr EMAS, gall greu tensiwn am nad oes gan yr ysgol reolaeth dros y canlynol:

- *pwy fydd yn gweithio yn yr ysgol ac am ba hyd*, er enghraifft cwynodd un ysgol eu bod wedi cael pum athro SIY arbenigol mewn dwy flynedd, ac roedd hon yn broblem benodol oherwydd roedd yn cymryd amser hir i'r plant roeddent yn gweithio gyda hwy fagu ymddiriedaeth mewn athro. Roedd pryder cysylltiedig ynghylch y ffaith nad oedd unrhyw sicrwydd gyda swydd CAD, felly byddai pobl yn newid swydd
- *yr hyfforddiant a dderbynnir*: Roedd yn ymddangos fel petai amrywiaeth sylweddol o ran yr hyfforddiant a'r cymwysterau y mae EMAS yn disgwyl gan CAD. Mae rhai wedi buddsoddi cryn dipyn i hyfforddi CAD, tra bod eraill wedi cyfaddef nad oeddent bob amser yn hyderus ynghylch ansawdd cymhwysedd iaith y cartref neu sgiliau Saesneg rhai CAD. Roedd ysgolion uwchradd yn pryderu y byddai angen i CAD gael dealltwriaeth lawn o'r cwricwlwm a phynciau ac, mewn rhai astudiaethau TGAU iaith y cartref, roedd CAD yn darparu y rhan fwyaf o'r cymorth addysgu
- *atebolrwydd*: mewn un ardal teimlwyd bod diffyg 'cynllun gwaith' ymhlith CAD ac athrawon arbenigol yn ei gwneud yn anodd i ysgolion drafod neu fonitro cynnydd
- *swydd ddisgrifiadau*: dywedodd ysgolion y gallai'r rhain fod yn anhyblyg er enghraifft, ni all CAD helpu myfyrwyr neu ddisgyblion nad ydynt yn siarad yr un iaith â hwy.

Y pryder ynghylch CAD yw, oni bai bod eu rôl wedi'i nodi a'i diffinio'n glir, gall symud y cyfrifoldeb dros wneud darpariaeth addysgol yn briodol ar gyfer myfyrwyr SIY i ffwrdd o'r ysgol ac i'r EMAS. Mae cwynion ysgolion ynghylch y ffordd y caiff CAD eu defnyddio yn awgrymu y gallai hyn ymestyn ymhellach y diffyg perchenogaeth o gymorth ar gyfer dysgwyr SIY, oherwydd ymddengys fod hyn yn rhoi rhwystrau strwythurol i atal ysgolion rhag cymryd rheolaeth a dysgu o'r gwaith. Roedd barn gyffredin ar draws ysgolion ac EMAS bod y MEAG yn amddiffyn cymorth ar gyfer SIY a bod hyn yn bwysig ond, fel y dywedodd un pennaeth 'Hoffwn gyflogi ein staff ein hunain, gyda'r arian wedi'i ddatganoli, ond wedi'i glustnodi, fel y PDG'.

Mae pryder ychwanegol ynghylch defnyddio CAD yn ymwneud ag osgoi gadael i ddisgyblion ddod yn ddibynnol ar eu cymorth. Eglurodd un pennaeth 'mae rhai plant Pwylaidd yn llwyddo i beidio â siarad Saesneg oherwydd bod y CAD a phlant eraill yn helpu cymaint'. Pwysleisiwyd yr angen i ddefnyddio CAD yn gynnil, ac mewn dull wedi'i dargedu.

Cymorth teulu

Caiff gwaith gyda theuluoedd dysgwyr SIY ei ddisgrifio fel offeryn allweddol wrth hyrwyddo cyflawniad addysgol. Mae Fuller (2012²⁹) yn disgrifio sut, os byddai penaethiaid ac arweinwyr ysgol yn delio ag amrywiaeth disgyblion drwy ymgysylltu â setiau data ar berfformiad a chyrhaeddiad ysgol a'i werthuso, na fyddai'r ysgol yn cyflawni llawer am fod angen iddynt ddeall perthynas disgybl ag addysg hefyd. Mae'r erthygl yn awgrymu y bydd ysgolion sy'n dilyn gwerthoedd sy'n canolbwyntio mwy ar bobl ac yn ymgysylltu mwy â staff, teuluoedd a'r gymuned, yn cael budd o fwy o rymuso gan y grwpiau hyn. Fodd bynnag, gall y broses o ddatblygu ymyriadau fel dysgu i'r teulu fod yn anodd oherwydd mae teuluoedd yn debygol o fod yn wahanol iawn, efallai'n dod o ddiwylliannau gwahanol, neu hyd yn oed cymunedau gwahanol o fewn gwlad. Felly, byddai angen i ymyriadau o'r fath fod yn glir iawn ynghylch pa gymorth sydd ei angen ar deuluoedd a lle ceir tir cyffredin rhyngddynt (Hope 2011³⁰).

Yn arbennig, gall fod yn gymhleth i rieni brodorol ddeall y system addysg, ond ar gyfer y rhai hynny sydd â sgiliau Saesneg gwan a disgwyliadau diwylliannol gwahanol iawn, gall fod yn anodd iawn (Cobb 2012³¹).

Gwnaeth yr EMAS a'r ysgolion yr ymgynghorwyd â hwy nodi pwysigrwydd cymorth rhieni/teulu a'r problemau a wynebant wrth weithio gyda theuluoedd sy'n siarad ychydig o Saesneg yn unig neu ddim Saesneg o gwbl. Roedd yr holl EMAS yr ymgynghorwyd â hwy yn ymwneud â chynorthwyo teuluoedd, weithiau'n sylweddol y tu hwnt i gyfranogiad addysgol. Roedd yr ysgolion i gyd yn ystyried disgyblion o ddiwylliannau eraill fel aelodau a oedd yn cyfoethogi bywyd ysgol, ond dywedasant fod y cyflwyniad cychwynnol i fywyd ysgol yng Nghymru yn gallu bod yn ddryslud ac yn llethol i blentyn neu berson ifanc. Hyd yn oed os maent wedi mynychu ysgol o'r blaen (a rhoddwyd enghreifftiau o dderbyn disgyblion hyd at 13 oed nad oedd wedi mynychu ysgol o'r blaen), bydd yr arferion, ymddygiad a disgwyliadau yn wahanol iawn. Efallai bydd angen cymorth sy'n ychwanegol at gymorth iaith ac mae'r rhai hynny yr ymgynghorwyd â hwy wedi trafod yr angen weithiau i gynorthwyo disgyblion drwy drawma sy'n gysylltiedig â phrofiadau yn y gorffennol, deall ymddygiad yr iard chwarae a rheolau'r ysgol, ac addasu i normau diwylliannol newydd.

Roedd ysgolion, yn arbennig, yn gwerthfawrogi cyswllt â sefydliadau cymunedol a allai eu cysylltu â rhieni, ac mae staff EMAS, yn arbennig cynorthwywyr addysgu dwyieithog gwirfoddol a rhai a gyflogir, yn aml yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau, o fynychu nosweithiau rhieni a nosweithiau agored ysgolion, helpu mewn clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol, datblygu gweithgareddau cymdeithasol yn y gymuned ar gyfer teuluoedd a darparu cymorth eiriolaeth ar gyfer ymweliadau â

²⁹ Fuller, K. (2012) *Leading with emancipatory intent: headteachers' approaches to pupil diversity*. Educational Management Administration & Leadership 40(6), tt. 672-689.

³⁰ Hope, J. (2011) *New insights into family learning for refugees: bonding, bridging and building transcultural capital*. Literacy 45(2), tt. 91-97.

³¹ Cobb, C. (2012) *Speed bumps, roadblocks and tollbooths: how culturally and linguistically diverse parents navigate the highways and byways of giftedness in Ontario*. British Journal of Special Education 39(1), tt. 12-20.

chanolfannau gwaith. Disgrifiwyd gwaith gyda Theuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a chyrrff partner eraill, gan gynnwys darparu hyfforddiant, cymorth gyda chyfieithu a chyflwyno teuluoedd.

SIY a gwella ysgol

Ystyriwyd bod cyswllt clir rhwng meithrin gallu yn effeithiol mewn ysgolion a sicrhau bod SIY yn flaenoriaeth gryfach mewn polisi ac arfer gwella ysgol. Gyda disgyblion ag anghenion cymorth SIY yn cyfrif ar gyfer bron 7 y cant o boblogaeth ysgolion yng Nghymru, a bron 30 y cant yng Nghaerdydd, gyda niferoedd yn disgwyl codi yn y dyfodol (roedd yr holl EMAS ac ysgolion yr ymgynghorwyd â hwy yn disgwyl i niferoedd y dysgwyr SIY godi yn y dyfodol) ystyriwyd ei bod yn bwysig ymgorffori SIY o fewn cynllunio gwella ysgol mewn ffordd fwy strwythuredig.

Bu newidiadau arwyddocaol i'r system addysg yng Nghymru i annog gwelliant a chyrhaeddiad ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y newidiadau hyn, ynghyd â newidiadau i gyllido yn y presennol ac yn y dyfodol, yn cael effaith anochel ar gymorth SIY. Fel y nodwyd uchod, gall disgyblion SIY o gefndiroedd difreintiedig, neu sy'n byw mewn tlodi, gael budd o raglenni mwy generig i gynorthwyo cyflawniad ymhlith disgyblion sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn 2012/13 lansiodd Llywodraeth Cymru y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG). Ffynhonnell gyllido unigryw yw'r PDG sydd ar gael i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r cyllid hwn wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall a bydd yn £1,050 y disgybl yn 2015/16. Dyrennir y cyllid i ysgolion er mwyn iddynt alluogi i ddysgwyr o'r cefndiroedd difreintiedig hyn oresgyn unrhyw rwystrau ychwanegol y gallent eu hwynebu wrth gyflawni deilliannau dysgu da. Fodd bynnag, pryder sylweddol a godwyd yn ystod yr astudiaeth hon oedd nad yw llawer o ddysgwyr SIY wedi'u cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim, er eu bod yn byw mewn tlodi. Efallai fod teuluoedd y dysgwyr yn ffoaduriaid na allant hawlio prydau ysgol am ddim, gweithwyr ar gyflog isel nad ydynt yn gwybod am eu cymhwysedd neu sy'n dewis peidio â'i dderbyn (er enghraifft, soniodd un ysgol am deuluoedd Pwylaidd sy'n gweithio ond yn derbyn cyflog isel iawn ac sy'n anfodlon cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim) neu weithwyr dros dro sy'n ei chael yn anodd cadarnhau eu cymhwysedd. O ganlyniad, gallai ysgolion ganfod bod eu dyraniad PDG yn is nag y gallai fod.

Yn 2008 cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, sef y fframwaith polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddefnyddio i geisio mynd i'r afael â gwella deilliannau yn ysgolion Cymru. Mae'n amlinellu rolau llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol a lleoliadau dysgwyr unigol mewn perthynas â'r dasg o wella deilliannau, a chafodd canlyniadau PISA³² yn 2006 eu cydnabod fel y meincnod ar gyfer gwella. Cafodd y model aml-haen o ran gwella ysgolion a gydnabuwyd yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ei addasu ymhellach yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn 2014. Mae'r ddogfen hon yn ffurfioli rôl y consortia rhanbarthol o ran rheoli addysg, rhannu arfer gorau, monitro

³² Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. OECD

deilliannau ac ysgogi gwelliant. Fodd bynnag, adroddodd EMAS fod cysylltiadau gwael neu ddim cysylltiad o gwbl â chynghorwyr herio ysgolion.

2011-2014 ceisiodd y broses o gyhoeddi Bandio Ysgolion grwpio ysgolion yn ôl perfformiad tra'n lliniaru'r achosion o amddifadedd ymhlith y disgyblion. Diben y broses Bandio Ysgolion oedd sefydlu blaenoriaethau ar gyfer cymorth wedi'i wahaniaethu a nodi'r rhai hynny y gallai'r sector ddysgu ganddynt (Llywodraeth Cymru, 2013). Byddai ymgorffori arferion cymorth SIY o fewn blaenoriaethau ar gyfer cymorth wedi'i wahaniaethu yn offeryn pwysig wrth ddatblygu gallu mewn ysgolion.

Ers 2013 mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi bod yn rhwymedigaeth statudol ar gyfer awdurdodau lleol, ac yn nodi targedau a deilliannau sgiliau sylfaenol disgwylidig ar gyfer dysgwyr o 5 i 15 oed. Cynlluniwyd y targedau hyn i ddylanwadu'r gwaith o reoli ysgolion, yn ogystal ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth, a chynorthwyo llywodraethwyr i fonitro cynnydd. Ym marn yr EMAS i gyd roedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ganolbwynt da ar gyfer SIY, am fod ganddo ganolbwynt ehangach ar ysgrifennu ar draws y cwricwlwm ac mae wedi datblygu'r syniad y dylai pob athro addysgu darllen. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y strwythur profi ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn anhyblyg (dim ond drwy gyfrwng y Saesneg y gellir gwneud profion llythrennedd) gan roi dysgwyr SIY o dan anfantais. Nid yw'r fframwaith yn caniatáu ar gyfer mesur cynnydd is-lefel, nododd adroddiad gan yr Adran Addysg (2010)³³ ar gofnodi cynnydd o ran darllen, ysgrifennu a mathemateg ym mlynnyddoedd 3-9 fod disgyblion SIY yn gwneud mwy o gynnydd o ran is-lefelau na'u cyfoedion yn y dosbarth, yn enwedig o ran darllen.

Yn ogystal â'r offerynnau polisi hyn, bu newidiadau i fframweithiau cymwysterau, fel rhoi'r gorau i asesu disgyblion Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 yn allanol, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Daugherty, a hefyd gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen i ddisodli Cyfnodau Allweddol 1 a 2. Mae'r dulliau hyn, yn enwedig y Cyfnod Sylfaen, yn ceisio cyflwyno dulliau cyfannol o ddarparu addysg gynradd sy'n ymdrin â sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd ochr yn ochr â chwarae a datblygiad cymdeithasol. Roedd yr EMAS i gyd yn hyderus bod darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn gynhwysol ac yn effeithiol gyda dysgwyr SIY, gan fod pwyslais cryf ar ddatblygu iaith.

Mae rôl awdurdodau lleol yng Nghymru yn destun proses o newid hirdymor. Mae symudiadau diweddar tuag at ddefnyddio consortia rhanbarthol wedi gweld cyfrifoldebau llawer o awdurdodau lleol yn symud. Yn arbennig, mae Adolygiad Hill (2013) a'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol wedi awgrymu bod gan y consortia rhanbarthol, sy'n gweithio uwchben lefel awdurdod lleol, rôl i'w chwarae wrth hwyluso rhannu arfer gorau rhwng ysgolion da ac ysgolion sy'n tangyflawni. Roedd pob EMAS a oedd ynghlwm wrth yr astudiaeth hon yn cydweithio â siroedd cyfagos drwy amrywiaeth o strwythurau. Mae dull Gwasanaeth Aml-Ethnig Gwent (GEMS) wedi dewis un sir, Casnewydd, fel awdurdod arweiniol sy'n darparu gwasanaethau cymorth SIY ar draws y pedair sir arall yng Ngwent – Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent. Mae Dinbych a Chonwy hefyd yn rhannu gwasanaethau. Efallai y bydd eraill yn cydweithio ar weithgareddau hyfforddi yn unig,

³³ Yr Adran Addysg (DFE) 2011. How Pupils Progress in KS2 and 3.

neu'n rhannu adnoddau ysgrifenedig. Fodd bynnag, ceir amrywiadau sylweddol yn y dulliau y mae EMAS yn ymgymryd â hwy, yn arbennig o ran defnyddio cynorthwywyr addysgu neu ddysgu dwyieithog a'u rôl, ac nid ystyriwyd y broses o symud tuag at weithio fel consortia fel rhywbeth syml bob tro.

Yn gydamserol â chryfhau'r model rhanbarthol o bedwar consortia, bu newidiadau i fonitro cynnydd ysgolion yn allanol ac yn fewnol. Mae Estyn wedi gwneud newidiadau diweddar i'w threfn arolygu, gan gyflwyno cyfnodau llai o rybudd ac arolygiadau dilynol mwy rheolaidd. Fel y nodwyd uchod, mae hefyd wedi cyhoeddi arweiniad atodol ar arolygu cymorth SIY mewn ysgolion. Gobeithio y bydd hyn yn darparu darlun cliriach o berfformiad ysgolion i wneuthurwyr polisi a'r cyhoedd. Hefyd, mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol wedi annog ysgolion a chonsortia rhanbarthol i wneud defnydd gwell o'u dulliau hunanwerthuso eu hunain. Bwriedir i'r data a gesglir drwy'r asesiadau blynyddol hyn gael ei ddefnyddio wrth reoli adnoddau yn yr ysgol ac wrth fonitro cynnydd. Byddai sicrhau bod SIY yn faes allweddol ar gyfer casglu data a'i ddadansoddi yn bwysig wrth feithrin gallu mewn ysgolion i ddiwallu anghenion.

Mae cyllid cyhoeddus yng Nghymru wedi bod o dan straen ers 2010, ac mae goblygiadau ar gyfer strwythur a chynnwys amrywiaeth o bolisïau. Nodwyd eisoes bod y dyraniad ar gyfer cyllid MEAG wedi'i ostwng. Fodd bynnag, er gwaethaf toriad o £1.5 biliwn yn y flwyddyn 2014/15, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw llawer o'i hymrwymyiadau i ymyriadau a pholisïau addysgol parhaus, fel Her Ysgolion Cymru, ac mae wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael i ysgolion drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion (Llywodraeth Cymru 2014). Felly mae sicrhau bod proffil SIY yn y meysydd polisi blaenoriaeth hyn yn bwysig.

Targedu gwaith

Mae'r agendâu cydraddoldeb a chynhwysiant sy'n ganolog i addysg yng Nghymru yn cynnwys SIY mewn dulliau ysgol gyfan ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae materion penodol sy'n ymwneud â chynnydd drwy addysg y mae ysgolion ac EMAS yn canolbwyntio arnynt fel materion arbennig o bwysig

Mae angen cymorth ar ddisgyblion sy'n newydd i'r Saesneg ac i fywyd ysgol yng Nghymru er mwyn eu cyflwyno i'r hyn sy'n digwydd mewn ysgol, ac i gael mynediad i'r cwricwlwm. Fel y nodwyd uchod, mae darparu cynorthwywyr addysgu dwyieithog (CAD) ar gyfer disgyblion sydd ag ychydig o Saesneg yn unig neu heb unrhyw gaffaeliad o'r iaith yn rhywbeth a ystyrir yn ddefnyddiol gan y rhan fwyaf o'r EMAS (ond nid pob un), ond mae'r ddarpariaeth hon yn dod yn llai ymarferol. Mae nifer yr ieithoedd gwahanol a siaredir, a nifer y disgyblion a'u gwasgariad, yn golygu nad yw'n bosibl i bob disgybl sy'n newydd i'r Saesneg gael mynediad i CAD. Mae cynnwys plant eraill drwy ddarparu cymorth drwy broses 'gyfeillio', cynnwys gwirfoddolwyr o'r gymuned a/neu ddarparu cyfieithiadau yn brosesau sydd eisoes yn cael eu defnyddio mewn ysgolion.

Fodd bynnag, nid yw targedu adnoddau at ddisgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg yn ddigon. Mynegodd ysgolion, yn benodol, bryder bod llawer o adnoddau yn canolbwyntio ar ddisgyblion sy'n newydd i'r Saesneg (yn enwedig o ran darparu

cymorth CAD) ond mae symud disgyblion sydd wedi cyrraedd Camau C a D i ruglder ar lefel academiaidd yn hanfodol. Adroddodd ysgolion nad oes llawer o gymorth ar gyfer disgyblion sydd ar frig lefel C, a dim byd i'r rhai ar Gam D, ond ni all disgyblion ar Gam C gael TGAU yn y Saesneg, yn enwedig gan fod y drefn farcio wedi rhoi mwy o bwyslais ar sillafu a gramadeg. Gwnaed y pwynt efallai na fydd disgyblion ail neu drydedd genhedlaeth Brydeinig, sy'n defnyddio'r Saesneg yn yr ysgol yn unig, yn gwneud cynnydd y tu hwnt i Gam C weithiau oherwydd na chaiff eu hanghenion o ran sgiliau iaith eu hasesu. Mae llawer o EMAS yn ymwneud â chlybiau ar ôl ysgol, gwaith cartref a brecwast i hyrwyddo datblygiad mwy helaeth o'r iaith.

Mae pwyntiau pontio, boed drwy gyfnodau allweddol neu rhwng darparwyr addysg, yn bwysig ar gyfer dysgwyr SIY. Nododd ysgolion werth staff EMAS yn mynychu cyfarfodydd pontio'r clwstwr, a gweithio ar draws cyfnodau allweddol, er mwyn iddynt allu gweithio gyda disgyblion yn y ddau leoliad wrth iddynt wneud cynnydd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ei adroddiad ar ddysgu SIY ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed yn 2009 adroddodd Estyn fod ymchwil gan y Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig wedi canfod bod y dysgwyr i gyd yn profi dirywiad yn eu sgiliau Saesneg wrth drosglwyddo rhwng lefelau astudio³⁴. Nid yw'r broses o gaffael iaith yn broses linol, yn enwedig pan na fydd yr iaith a gaffaelir yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ysgol, a phwysleisiodd EMAS yr angen i ailasesu a chynllunio'n barhaus ar gyfer cynorthwyo sgiliau iaith, hyd yn oed pan fydd Saesneg cymdeithasol da gan ddysgwr.

Dywedodd nifer o'r rhai hynny yr ymgynghorwyd â hwy os byddai ymyriadau yn cael eu mesur yn nhermau cyflawniad yn erbyn y safonau a osodwyd ar gyfer cyfoedion brodorol yn unig, nid oes cymhelliant i weithio gyda disgyblion sy'n cyrraedd ym mlwyddyn 9 neu'n uwch. Yn wir, teimlai rhai, o ystyried yr amser sydd ei angen i gyflawni cymhwysedd academiaidd mewn iaith, na fyddai unrhyw ddysgwyr newydd a fyddai'n dechrau yn y system addysg yn yr ysgol uwchradd yn gallu cyflawni'r lefel ofynnol. Mae hyn yn creu diffyg cymhelliant i ysgolion dderbyn dysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg i'r cwricwlwm prif ffrwd, a chymhelliant gwrthnysig i nodi dysgwyr SIY fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae pryder bod disgyblion SIY yn cael eu nodi'n rhy aml fel rhai sydd ag AAA, pan fo'r problemau sydd ganddynt yn rhai ieithyddol yn hytrach na gwybyddol. Efallai y cânt eu rhoi mewn setiau is hefyd oherwydd na fydd modd i'r ysgolion asesu eu gallu yn glir. Er enghraifft, disgrifiodd un ysgol sut y gall disgyblion sy'n dod i'r ysgol o wledydd eraill feddu ar sgiliau mathemateg gwell na'u cyd-ddisgyblion brodorol, ond gan fod papurau mathemateg yn cynnwys mwy o ysgrifennu erbyn hyn, ni allant weithio ochr yn ochr â chyfoedion mewn setiau uwch.

Codwyd yr anawsterau o ran nodi ac asesu AAA ymhlith dysgwyr SIY yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Fel y nodwyd uchod, yn anaml iawn y mae gan wasanaethau arbenigol AAA y wybodaeth neu'r offer i asesu'n gywir pan na fydd y disgyblion yn siarad Saesneg. Gall lefelau llythrennedd ddarparu ychydig o fewnwelediad i sgiliau

³⁴ Providing the Needs of Pupils from Ethnic Minority Backgrounds Studying in Sixth Forms within LEA Maintained Schools, J.L. Martin MA.Ed, April 2008

gwybyddol ac mae adroddiad NALDIC (Cline a Shamsi, 2000³⁵) yn nodi pwysigrwydd trin asesiadau yn gyfannol:

Literacy is intimately bound up not only with our language knowledge but also with our feelings about our languages and about the social group with which they are associated.
(Ibid: 2)

Er enghraifft, disgrifiodd un ysgol sut maent yn nodi pan fydd problem gan ddisgybl ac yn egluro eu harsylwadau i seicolegydd addysgol a chytuno ar strategaethau, heb asesu'r disgybl yn uniongyrchol. Mae gan EMAS Caerdydd oriau seicoleg addysgol sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth, sy'n galluogi datblygu arbenigedd penodol. Mewn un ardal bu nifer uchel o atgyfeiriadau yn ddiweddar i'r gwasanaethau nam ar y golwg a'r clyw gan ddysgwyr SIY. Nid oedd y rhan fwyaf o EMAS yn gweithio gydag ysgolion arbennig a phrin oedd y wybodaeth am sut roedd disgyblion ag AAA ac anghenion SIY yn cael cymorth.

Mwy galluog a thalentog: nododd yr holl EMAS a rhai ysgolion enghreifftiau o ddisgyblion eithriadol o alluog lle roedd yr unig broblemau a oedd ganddynt yn ymwneud ag iaith. Gall y ffaith fod y Cydlynnydd ADY neu'r Cydlynnydd AAA yn yr ysgol hefyd yn gydlynnydd SIY ddarparu cysylltiad AAA yn yr ysgol, gan guddio'r angen i asesu gallu gwybyddol yn ogystal â gallu iaith a chyfathrebu.

Data a'r 'rhith-bennaeth'

Disgrifiodd nifer o'r EMAS rôl 'rhith-bennaeth', lle byddant yn coladu (neu hyd yn oed yn casglu) data ar gynnydd disgyblion sydd ag angen SIY yn y sir, gan fonitro cyflawniad. Caiff y data ei ddefnyddio i lywio cyswllt ag ysgolion, neu athrawon, i hyrwyddo cynnydd, gan roi'r cyfle i awgrymu strategaethau newydd neu gyflwyno adnoddau newydd. Mae i ba raddau y mae'r rôl hon yn gweithredu fel cymorth neu fel her yn amrywio, er enghraifft disgrifiodd EMAS Bro Morgannwg ei brif rôl fel gweithio i ddatblygu uchelgais yr ysgol ar gyfer y plentyn, gan herio cyflawniad yn hytrach na chynnig cymorth gyda'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer y plentyn, lle y caiff data ei ddefnyddio i fireinio ymyriadau mewn ardaloedd eraill.

Gall y defnydd o ddata a strwythurau meincnodi helpu i nodi AAA. Yn Abertawe, er enghraifft, defnyddir graff syml sy'n mapio cynnydd er mwyn helpu i nodi lle na fydd disgybl yn datblygu sgiliau iaith ar gyfradd ddisgwyliedig a nodi'r angen i gynnal asesiad mwy trylwyr o gynnydd a ffactorau cyfrannol.

Mae'r dull coladu a dadansoddi data a ddefnyddir gan EMAS yn darparu strwythur y mae rhai siroedd wedi ei ddefnyddio i ddatblygu dull sy'n canolbwyntio ar y disgybl unigol. Mae rhai EMAS yn adnabod pob plentyn sydd ag angen SIY yn y sir, neu o leiaf eu henwau, ac mae staff yn debygol o wybod agweddau ar eu cefndiroedd a'u hanghenion cymorth. Mewn rhai achosion, drwy bontio bywyd y cartref a bywyd

³⁵ Cline, T a Shamsi, T 2000. Language needs or special needs? The assessment of learning difficulties in literacy among children learning English as an additional language: a literature review. 2000 DFEE

ysgol mae staff EMAS wedi llwyddo i nodi materion amddiffyn neu gymorth na fyddai'n cael eu nodi, o bosibl, yn yr ysgol. Nid yw'r lefel hon o wybodaeth am y disgyblion yn bosibl pan fydd poblogaethau mwy o ddisgyblion ag anghenion SIY, ond mae casglu a dadansoddi data ar gynnydd yn offeryn gwerthfawr wrth leoli SIY yng nghyd-destun gwella ysgol, gan fod EMAS yn gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a meincnodi deilliannau SIY ysgolion yn erbyn rhai eraill yn y sir.

4. Dadansoddiad

Cytunodd yr holl EMAS yr ymgynghorwyd â hwy fod angen datblygu gallu ysgolion i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion SIY. Yn rhannol ystyriwyd bod hyn yn cydnabod y ffaith bod niferoedd disgyblion sydd ag anghenion SIY yn cynyddu, a hefyd bod y gwaith o ddiwallu eu hanghenion yn mynd yn fwy cymhleth. Mae nifer yr ieithoedd gwahanol a siaredir gan ddisgyblion, ystod y profiadau addysg blaenorol a'r pwyntiau mynediad amrywiol i'r system addysg yng Nghymru yn golygu nad yw'n ymarferol i un gwasanaeth canolog ddarparu cymorth SIY fel yr eglurodd un aelod o staff EMAS:

'Ni allwn fod ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth gyda'r niferoedd sydd bellach yn dod i'r ysgolion. Daeth yr ysgolion yn rhy ddibynnol arnom, a nawr rhaid i'r holl ysgolion ymdrin â sut i ddarparu cymorth SIY'

Mae digon o arweiniad ac ymchwil ar sut i wneud hyn. Mae'n cynnwys ymrwymiad ysgol gyfan, canolbwyntio ar gyflawniad a gwella ysgol, hyblygrwydd a chreadigrwydd wrth ddefnyddio'r cwricwlwm a modelau achredu, hyder wrth ddefnyddio dulliau o wahaniaethu ac adnoddau effeithiol. Fodd bynnag, mae sut i ddatblygu'r dull hwn o ran SIY ledled Cymru yn fwy cymhleth. Efallai y bydd dull sy'n seiliedig yn yr ysgol yn canolbwyntio ar adran (mewn ysgol uwchradd), neu ar un athro neu fwy, a nodwyd yn yr ysgol. Bydd yr athro arbenigol yn gweithio ochr yn ochr â'r rhain, i'w helpu i ddatblygu offer a thechnegau, adnoddau a hyder, gan ganolbwyntio ar helpu'r ysgol yn hytrach na disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth a'r trafodaethau gydag EMAS yn darparu tystiolaeth gymysg o ran p'un a yw'r ffordd hon yn arwain at ddull ysgol gyfan, a hyd yn oed pan fyddant yn ymgymryd â'r dull hwn o feithrin gallu ac adnoddau mae EMAS hefyd yn parhau i ddarparu rhywfaint o gymorth i ddisgyblion unigol, fel arfer drwy CAD neu CA.

Nid oedd dull safonol o feithrin gallu, heblaw drwy ddarparu hyfforddiant, ond mae'r rhan fwyaf o EMAS yn teimlo y bydd angen cymorth arbenigol o hyd, drwy gynorthwywyr addysgu ac athrawon arbenigol, ar gyfer y disgyblion hynny sydd â'r angen mwyaf yng nghyfnodau allweddol 1 ac uwchben hynny. Dywedodd ysgolion, ac yn enwedig ysgolion uwchradd, fod angen cymorth cyfieithu am gyfnod i atal disgyblion rhag syrthio y tu ôl i'w cyfoedion, neu rhag cael eu rhoi mewn setiau is, am resymau yn ymwneud â'u hanfantais ieithyddol yn unig, yn enwedig am fod y system addysg yng Nghymru yn seiliedig ar oedran cronolegol, yn hytrach na gallu. Fodd bynnag, mae'r niferoedd cynyddol ac amrywiaeth yr anghenion yn golygu ei bod yn afrealistig disgwyl gallu cynnig cynorthwyydd addysgu dwyieithog i bawb, felly rhaid i ysgolion ddatblygu'r gallu a'r adnoddau i ddiwallu'r anghenion eu hunain. Fel y dywedodd un ymatebydd *'nid yw cael cymorth yn y dosbarth yn newid dull yr athro – mae hyfforddiant ar gyfer gwahaniaethu yn allweddol. Ceir rhagdybiaeth bod pawb yn gwybod sut i wneud hyn, ond dydyn nhw ddim.'*

Mae i ba raddau y bydd angen cymorth allanol neu ychwanegol gyda SIY yn dibynnu ar raddfa. Mae gan ysgolion dros Gymru gyfan ddisgyblion SIY ond gall y niferoedd amrywio o 70%+ o'r gofrestr, i ddysgwyr unigol. Yn aml bydd gan ysgolion ffydd niferoedd uwch. Fel yr eglurodd un pennaeth:

'gydag un neu ddau o blant, efallai y bydd angen i chi gael cyngor a rhywfaint o arweiniad; gydag ychydig mwy mae angen i chi gael cymorth a help am dymor i'w cael yn barod; gyda 70% mae angen help ac amser ychwanegol er mwyn iddynt ddysgu darllen, er mwyn eu helpu i ymgyswgu â'r amgylchedd newydd a deall beth sy'n digwydd'.

Fel y dengys y dyfyniad hwn, mae'r niferoedd yn golygu bod angen amser i ddarparu cymorth unigol a chymorth i helpu disgyblion wrth drosglwyddo i amgylchedd yr ysgol. Efallai y bydd athro yn gwybod beth i'w wneud, ond nad oes ganddo'r amser sydd ei angen i ddatblygu sgiliau iaith heb roi eraill yn y dosbarth o dan anfantais. Mae'r cwmpas ar gyfer cynllun 'cyfeillio', gyda disgyblion yn helpu ei gilydd, hefyd yn lleihau wrth i gyfran y disgyblion sy'n newydd i'r Saesneg gynyddu.

Serch hynny, roedd EMAS yn glir bod gwella darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion SIY yn helpu disgyblion yn gyffredinol wrth ddatblygu eu sgiliau iaith. Canfu astudiaeth yn Lloegr a ddefnyddiodd eu Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, ar ôl rheoli nodweddion demograffig ysgolion, nid oedd tystiolaeth bod cael nifer mawr o fyfyrwyr SIY mewn dosbarth yn rhoi cyfoedion brodorol o dan anfantais (Geay et al 2012³⁶), ac ymddengys ei fod yn rhoi mantais fach o ran cyflawniad mathemateg. Gall adnoddau gweledol, er enghraifft, fod yn ddefnyddiol ar gyfer pob dysgwyr wrth ddatblygu sgiliau Saesneg.

Y dull fesul cam o gaffael iaith

Yn gyffredinol, teimlir bod y system fesul cam ar gyfer cofnodi caffaeliad iaith yn effeithiol, er siaradodd ysgolion am ddefnyddio hyd at 16 o is-grwpiau o fewn cam. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y diffyg cyswllt rhwng y system hon a'r gweithdrefnau asesu safonol eraill y mae'n rhaid i'r ysgol eu defnyddio yn atal y system rhag cael ei hymgorffori mewn gweithdrefnau cynllunio ysgolion. Hefyd, ystyriwyd bod y disgywliad am gyfradd cynnydd unffurf drwy'r camau yn offeryn anhyblyg nad oedd yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau. Yn olaf, mae pryder nad oes digon o sylw yn cael ei roi i anghenion caffael iaith o gam C (neu hyd yn oed B).

Cyd-destun polisi

Ystyriwyd ei bod yn bwysig cydbwysu cynhwysiant a chyflawniad. Pwysleisiodd yr holl gyfweleion bwysigrwydd canolbwyntio ar gyflawniad, a mesur cynnydd yn erbyn meincnodau. Fodd bynnag, mae'r angen i alluogi dysgwyr SIY hŷn i gyflawni llwyddiannau academaidd, er gwaethaf yr amser y gallai gymryd i feithrin y sgiliau iaith sydd eu hangen, yn sail i'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU yn eu hiaith eu hunain, ac wedi arwain at ddefnydd ehangach o gymwysterau gan gynnwys TGAU a BTEC rhyngwladol.

³⁶ Geay C, McNally, S a Telhaj, S (2012) Non-Native Speakers Of English In The Classroom: What are the Effects on Pupil performance. Nuffield Foundation

Caiff y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ei ystyried fel cryfder o ran meithrin gallu ac adnoddau am ei fod yn canolbwyntio ar iaith, ond gall gwendid fel caffael iaith effeithio ar sgoriau disgyblion. Canfu adroddiad gan OECD (2010) fod ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau addysg gwell yn cynnwys cymryd rhan mewn addysg plentyndod cynnar a gofal plant, gweithgareddau cynnar ar gyfer darllen yn y cartref, neilltuo mwy o oriau i ddysgu iaith yn yr ysgol, adnoddau addysg yn y cartref, proffil economaidd-gymdeithasol mwy manteisiol ar gyfartaledd i'r ysgol a mesurau atebolrwydd ysgol. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar lythrennedd.

Yn 2013-2014 cyfrannodd hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru gyllid tuag at gymorth SIY ochr yn ochr â'r cyllid MEAG. Amrywiodd y cyfraniadau o £360,000 i ychydig dros £1,000, cyfanswm o ychydig dros filiwn o bunnoedd. Fodd bynnag, roedd y cyllid hwn yn fregus yn ôl yr EMAS. Mewn rhai ardaloedd mae o dan fygythiad ac mewn ardaloedd eraill gwnaed y penderfyniad i dynnu'r cyllid yn ôl. Disgrifiwyd darparu cymorth i ddysgwyr SIY fel mater nad oedd yn ddeniadol yn wleidyddol yn lleol. Yn ogystal, roedd llwyddiannau rhai gwasanaethau wrth gau, neu hyd yn oed wrthdroi'r bwch cyflawniad rhwng disgyblion SIY a disgyblion brodorol yn creu ei beryglon ei hun, gyda phobl yn gofyn os mae disgyblion SIY yn gwneud yn dda, pam dylid rhoi cymorth iddynt? Er bod cael gwared ar gymorth sy'n gweithio yn mynd yn groes i'r hyn sy'n reddfod, mewn amseroedd o lymder mae'r gwaith o flaenoriaethu cyllid o amgylch yr hyn sy'n cael ei ganfod fel yr angen mwyaf yn golygu bod cymorth SIY dan fygythiad.

Dulliau ysgol gyfan

Adroddodd EMAS mai anaml iawn y mae ysgolion yn blaenoriaethu cymorth SIY, hyd yn oed pan fydd ganddynt niferoedd mawr o ddisgyblion SIY. Efallai y byddant yn dibynnu ar gymorth allanol gan EMAS, neu'n trin myfyriwr SIY fel myfyriwr sydd ag AAA, gan ddiystyru'r broblem. Mae'r anhawster a brofir gan y rhan fwyaf o EMAS (ac a amlygwyd yn y gwerthusiad o'r MELAP) mewn perthynas ag annog ysgolion i fynychu hyfforddiant, hyd yn oed pan delir costau cyflenwi, yn dangos bod SIY yn flaenoriaeth isel.

Mae strategaethau meithrin gallu yn golygu bod angen i gymorth SIY gael ei ystyried fel mater o ran gwella'r ysgol, gydag ymrwymiad oddi wrth yr uwch dîm rheoli i'w wneud yn ddull ysgol gyfan. Mae'n bwysig cael aelod o staff a enwebwyd (yn ddelfrydol o'r uwch dîm rheoli) i fod yn gyfrifol am waith cymorth SIY a lleiafrifoedd ethnig, a all godi'r proffil yn yr ysgol. Fodd bynnag, dylai fod rôl strategol a monitro gan y person hwn nad yw'n cymryd cyfrifoldeb i ffwrdd o athrawon unigol i ddiwallu anghenion eu disgyblion.

Caiff SIY ei hymgorffori o fewn anghenion dysgu ychwanegol, ac mae llawer o gydlynwyr SIY yn Gydlynwyr ADY neu'n Gydlynwyr AAA hefyd. Mae hyn wedi arwain at rai pryderon ynghylch sut y caiff SIY ei ystyried mewn ysgolion, a'r perygl y gall anawsterau iaith a chyfathrebu gael eu diystyru yn rhy hawdd, neu eu trin, fel AAA. Mae hyn yn mynd yn groes i feithrin gallu mewn ysgolion. Fel y dywedodd un EMAS *'Mae angen i uwch arweinwyr, a thimau bugeiliol, gydnabod SIY a'r ffaith mai ein disgyblion ni yw'r rhain; ni allwn eu slotio i mewn os na fydd SIY yn y cynllun datblygu'*.

Cafodd arweiniad Estyn ar arolygiadau ar gyfer SIY ei werthfawrogi am ei fod yn helpu i leoli SIY mewn cyd-destun gwella ysgolion prif ffrwd, ond roedd pryder nad oes gan bob arolygydd wybodaeth i nodi arfer da, a nodwyd rhai enghreifftiau o arfer gwael yn cael ei ganmol.

Nododd EMAS ac ysgolion mai eu dangosyddion llwyddiant ym maes meithrin gallu oedd:

- hyder staff wrth gynorthwyo disgyblion newydd
- hyder staff o ran gwahaniaethu
- llai o alwadau ffôn mewn panig i EMAS am gymorth
- canlyniadau gwell yn CA3 a 4
- ysgolion yn cymryd rhan weithgar mewn gweithdrefnau a monitro – gan ddod i EMAS gyda ffurflenni wedi'u cwblhau ac yn cymryd rhan weithredol, yn hytrach na gorfod eu hannog i gymryd rhan.

Gallu o ran addysgu

Er nad yw'n ymarferol disgwyl i athrawon gwmpasu pob agwedd ar anghenion ychwanegol yn eu hyfforddiant cychwynol athrawon, ymddengys fod problem yn codi gyda gwahaniaethu, a hyder wrth ddefnyddio dulliau cymysg a lluosog sy'n awgrymu os byddai modd gwneud mwy o waith ar hyn yn ystod hyfforddiant cychwynol athrawon byddai'n fuddiol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion SIY.

Caiff hyfforddi a mentora, yn enwedig ym maes gwahaniaethu, eu hystyried fel y prosesau pwysicaf wrth feithrin gallu. Dywedwyd nad oes llawer o werth i adnoddau ar eu pennau eu hunain, siaradodd pobl am offer gwerthfawr a oedd yn cael eu gadael ar y silff neu yr anghofwyd amdanynt nes bod eu hangen, ac yna does neb yn gallu dod o hyd iddynt. Mae adnoddau y gellir cael gafael arnynt yn hawdd ar y rhyngwrwyd (fel safle Nexus y Cyngor Prydeinig) ond mae'r rhan fwyaf o EMAS wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu adnoddau wedi'u teilwra'n benodol, a'r fantais allweddol yw'r gwaith a wnaed i ddatblygu dealltwriaeth a defnydd yr athro o'r adnoddau hynny. Fodd bynnag, mae gwendid yn natur drosglwyddadwy adnoddau o'r fath rhwng ac o fewn ysgolion, a rhwng siroedd gwahanol.

Defnyddio data

Mae tystiolaeth glir bod monitro a gwerthuso yn gweithio. Pan fydd EMAS yn monitro disgyblion SIY gallant ddefnyddio data'n effeithiol i nodi ble gall fod angen cymorth ychwanegol, ac i helpu i nodi ble gall fod AAA. Gall hyn gynorthwyo arferion gwaith sy'n canolbwyntio ar y disgybl am ei fod yn canolbwyntio sylw ar gyflawniad unigol. Mae dadansoddi data yn caniatáu ar gyfer gwaith wedi'i dargedu, er enghraifft, nododd un EMAS er bod lefelau cyflawniad trothwy lefel 2 yn gwella, nid oeddent yn gwella ar gyfer disgyblion Pwylaidd yn y sir. Gall ysgolion ac EMAS ddefnyddio data o'r fath i lywio dulliau newydd, gan roi cynnig ar rywbeth gwahanol i gyrraedd y rhai nad yw eu hanghenion, a ddangosir yn y data, yn cael eu diwallu ar hyn o bryd.

Cydweithio a dysgu

Mae gweithio drwy gonsortia yn datblygu ond mae cydweithio cyfyngedig o hyd ar draws EMAS, ac mae'r rhan fwyaf o siroedd yn gweithio ar wahân neu â chydweithio cyfyngedig ar draws siroedd. Mae EMAS yn falch iawn o'r gwaith a wnânt a'r arbenigedd sydd wedi datblygu, gan arwain at y ffaith nad ydynt bob amser yn ystyried y posibilrwydd o uno ag eraill mewn ffordd gadarnhaol. Y gwahaniaethau allweddol rhwng EMAS yw'r defnydd o CAD a CA a'u rôl; barn ynghylch pwysigrwydd adnoddau wedi'u teilwra'n benodol neu adnoddau safonol; a lefel y gwaith monitro a herio y teimlant y gallant ei wneud.

Nid oes llawer o orgyffwrdd na chysylltiad rhwng gwasanaethau Cymraeg fel iaith ychwanegol (CIY) a SIY, er bod rhai EMAS yn dechrau datblygu cysylltiadau. Y tu allan i ardaloedd lle mae CIY wedi'i datblygu'n dda ymddengys nad oes llawer o gymorth i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae anfantais ynghlwm wrth hyn sef cyfyngu'r broses o rannu arfer da rhwng gwasanaethau CIY a SIY, a gall fod o anfantais i SIY mewn ardaloedd lle mae gan CIY broffil uwch.

Yn yr un modd, nid oes llawer o gymorth EMAS yn cael ei ddarparu i ysgolion arbennig.

5. Casgliadau

Mae'r hyn sy'n dda i ddisgyblion SIY yn dda i'r disgyblion i gyd

Mae'n rhaid i'r gwaith o gynorthwyo SIY gael ei ystyried fel rôl barhaol y mae ysgolion yn ymgymryd â hi, nid ymateb adweithiol i donnau o fudo. Mae pob EMAS ac ysgol a oedd yn rhan o'r astudiaeth hon yn disgwyl i fudo barhau, a gyda dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am ddeg y cant o'r holl ddisgyblion yng Nghymru, ac mae angen cymorth SIY ar 7 y cant ohonynt, felly mae eu hanghenion yn brif ffrwd.

Wrth feithrin gallu ar gyfer cymorth SIY mewn ysgolion mae angen ei roi o fewn y cyd-destun gwella ysgol ehangach. Byddai hyn yn cynnwys mapio ymyriadau SIY, casglu data a chynnydd yn glir yn erbyn mesurau gwella ysgol craidd gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol; gwahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth a defnyddio mwy o amrywiaeth yn y dulliau addysgu a'r defnydd o adnoddau; y PDG a'i ddulliau mesur canlyniadau; a chynlluniau datblygu ysgol.

Mae angen pwyslais cryfach ar wahaniaethu a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ystod hyfforddiant cychwynol athrawon. Er nad yw'n fater sy'n ymwneud yn benodol â SIY, byddai gwaith datblygu o'r fath yn cyfrannu'n fawr at feithrin gallu ar gyfer anghenion SIY mewn ysgolion.

Mae tlodi hefyd yn effeithio ar lawer o ddisgyblion SIY ac efallai bod ganddynt broblemau tebyg i gyfoedion eraill sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, fel rhieni â lefelau isel o addysg, diffyg mynediad i lyfrau (yn Saesneg neu iaith y cartref), diffyg lle tawel i ddarllen a gwneud gwaith cartref, a disgwyliadau a dyheadau isel gan y teulu mewn perthynas ag addysg. Yn y cyd-destun hwn, mae'r adroddiad OECD (2010) yn argymhell mwy o bolisiau lle mae iaith yn ganolog iddynt, a sicrhau mynediad gwell i bolisiau sy'n targedu anfantais economaidd gymdeithasol. Nododd astudiaeth ar dlodi ac ethnigrwydd yng Nghymru (JRF 2013) fod pob rhiant yn gweld addysg fel ffordd o adael tlodi ond efallai fod ymwybyddiaeth o sut mae cymwysterau yn gweithio, anghenion y farchnad lafur ehangach a lleol a'r rôl y mae'r cartref a'r gymuned yn ei chwarae yn isel.

Amddiffyn a datblygu canolbwynt SIY ar gyflawniad

Mae angen cryfhau'r cyswllt polisi rhwng SIY ac anghenion gwella ysgol er mwyn i SIY ddod yn greiddiol i ddatblygiad ysgolion. Mae angen datblygu cysylltiadau cryfach â chynghorwyr herio a sicrhau bod y data a gedwir ar ddisgyblion SIY yn gadarn ac yn gallu llywio gwaith datblygu mewn ysgolion. Byddai dull o'r fath, gobeithio, yn helpu i sicrhau ymrwymiad gan uwch dimau rheoli i waith cymorth SIY mewn ysgolion.

Mae canolbwyntio ar gymorth pontio, ac yn enwedig ar bontio ôl-16, yn bwysig er mwyn atal adlithro o ran caffael iaith a mynd i'r afael â hyn.

Mae angen i Estyn recriwtio arbenigwyr hyfforddedig ym maes SIY a all gynorthwyo arolygiadau.

Dadansoddi data a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion

Dylid archwilio a datblygu rôl y 'rhith-bennaeth' a fabwysiadwyd gan rai EMAS fel proses ar gyfer gwella ysgol. Disgrifiwyd y rôl hon fel cyfuniad o rôl cynghorydd herio'r ysgol o ran dadansoddi data, rôl y rhiant gweithredol o ran rheoli ansawdd, a rôl yr athro arbenigol o ran mentora a datblygu. Mae'r ffaith bod data ar ddisgyblion SIY yn cael ei fonitro yn debygol o gael effaith fuddiol. Mae'r ffaith ei fod yn cael ei ddadansoddi ac yn ysgogi her a/neu awgrymiadau defnyddiol o ffyrdd o wella cyflawniad yn ddefnyddiol iawn. Mae rôl o'r fath yn golygu lle mae ysgolion ac athrawon yn diwallu anghenion yn llwyddiannus, ni chaiff adnoddau eu gwario ar ychwanegu haenau diangen o waith, ond lle mae bylchau clir neu lithriad, gellir nodi'r rhain a mynd i'r afael â hwy yn gyflym.

Gall dadansoddi data fod yn sail i gynllunio effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Ar draws addysg, rhoddir sylw i ddatblygu dulliau o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mewn perthynas ag AAA, mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cyflwyno sy'n darparu asesiad cyfannol o anghenion a set gytûn o ymyriadau, a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd i ymdrin ag anghenion. Gallai mabwysiadu model Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer dysgwyr SIY ddarparu fframwaith defnyddiol ar gyfer gosod targedau unigol, drwy strwythur y bydd ysgolion yn ei defnyddio ar gyfer disgyblion eraill. Y perygl fyddai y byddai'n cryfhau ymhellach y farn bod AAA ar ddisgyblion SIY, er bod y model wedi'i ddatblygu ar gyfer grŵp ehangach o ddysgwyr ADY.

Gall dull sy'n canolbwyntio ar unigolion helpu i liniaru anawsterau a wynebir gan leoliadau gwahanol, o'r rhai sy'n cefnogi dysgwyr unigol i grwpiau mawr o ddysgwyr.

Cysylltiadau â'r teulu a'r gymuned a chysylltiadau all-ysgol eraill

Mae cydnabyddiaeth gref na all cymorth SIY ddigwydd o fewn ysgol yn unig. Mae'r angen i hyrwyddo a chynorthwyo gweithgareddau y tu allan i ysgol, neu'r tu allan i'r cwricwlwm o fewn ysgolion, sy'n datblygu sgiliau iaith yn hanfodol. Er enghraifft, mae un o'r ysgolion yr ymwelwyd â hi yn cynnwys y CAD mewn clwb gemau cyfrifiadurol yn ystod amser cinio, ac yn annog disgyblion SIY a rhai nad ydynt yn SIY i rannu diddordeb yn y gêm i weithio gyda'i gilydd. Gall gwaith yn y gymuned, er enghraifft clwb gyda'r nos a gaiff ei redeg gan Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerdydd sy'n dod â myfyrwyr prifysgol, disgyblion ysgol a gweithwyr cymunedol ynghyd i weithio ar waith cartref, fod yn effeithiol wrth ddatblygu sgiliau iaith; a gall gwaith gyda theuluoedd helpu i ddatblygu dealltwriaeth o system yr ysgol a sut i gynorthwyo eu plant.

Mae rhai EMAS wedi cynnal sesiwn HMS ar gyfer cyrff cymorth fel Dechrau'n Deg, gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith a hefyd wedi rhoi mewnbwn i hyfforddiant cychwynnol athrawon, a gyda cholegau a lleoliadau gwaith. Mae'r canolbwynt hwn ar feithrin ymwybyddiaeth a gallu y tu allan i'r ysgol yn hanfodol.

Datblygu'r hyn sy'n gweithio

Mae cau'r bwlch cyrhaeddiad mewn perthynas â dysgwyr SIY yn dangos bod cymorth yn gweithio, er y gallai'r amrywiadau o ran deilliannau awgrymu cryfderau penodol. Mae EMAS ledled Cymru yn cyflogi rhai pobl â sgiliau, cymwysterau a phrofiadau arbennig, sy'n deall anghenion SIY. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd hwn, mae angen i EMAS weithio'n agosach â'i gilydd, i fod yn llai amddiffynnol o'u dulliau ac offer, ac yn fwy agored i her a datblygiad, gan weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu'r elfennau gorau ym mhob ardal. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod angen mabwysiadu arferion cyffredin, yn enwedig pan fydd arferion wedi'u datblygu i fynd i'r afael ag anghenion penodol, fel niferoedd mawr o ddysgwyr SIY, ond dylai olygu y gall egwyddorion clir ar sut y dylai cymorth ar gyfer SIY gael ei lunio ar lefel ysgol, sir a chonsortiw m gael eu gosod allan. Y perygl yw os na fyddant yn cymryd y cam hwn, caiff yr egwyddorion hyn eu penderfynu heb eu mewnbwn.